PLANT YNG NGHYMRU
CHILDREN IN WALES

CYMRU IFANC
YOUNG WALES

# YMGYNGHORIAD DRAFFT LLYWODRAETH CYMRU AR Y CYNLLUN PLANT A PHOBL IFANC

Adroddiad Canfyddiadau Cymru Ifanc ar ran Llywodraeth Cymru

**Gareth Hicks | Ionawr 2022**





# CYNNWYS


| | |
|---|---|
| **Rhagair** | **3** |
| **Crynodeb Gweithredol** | **4 - 8** |
| Awgrymiadau | 5 |
| **Cyflwyniad** | **9** |
| **Methodoleg** | **10 - 17** |
| Nod ac Amcanion | 11 |
| Data Cyfranogwyr | 11 |
| Dull Gweithredu | 14 |
| Dull Gweithredu'r Blynyddoedd Cynnar | 16 |
| Cyfyngiadau | 16 |
| **Canfyddiadau Allweddol** | **18 - 36** |
| **Awgrymiadau** | **37 - 40** |
| **Diweddglo** | **41 - 42** |
| **Atodiadau** | **43 - 77** |



**Ariannir yr adroddiad hwn gan Lywodraeth Cymru. Barn yr awdur a fynegir yn yr adroddiad hwn, ac nid yw o reidrwydd yn cynrychioli barn yr ariannwr.**

# RHAGAIR

**Plant yng Nghymru yw'r corff trosfwaol cenedlaethol ar gyfer sefydliadau ac unigolion sy'n gweithio gyda phlant, pobl ifanc a'u teuluoedd yng Nghymru.**

Menter Plant yng Nghymru yw Cymru Ifanc, sy'n chwyddo ac yn cefnogi lleisiau plant a phobl ifanc ledled Cymru i gael eu clywed, i gael eu gwrando ac i ddylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywydau; a hynny ar sail Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) a Safonau Cyfranogiad Cenedlaethol plant a phobl ifanc. Ein nod yw gwneud hyn trwy sicrhau bod pobl ifanc yn cael cyfleoedd i gyfranogi a chodi materion sy'n bwysig iddyn nhw; sicrhau bod eu lleisiau'n cael eu clywed gan lunwyr penderfyniadau, swyddogion polisi, swyddogion Llywodraeth Cymru a Gweinidogion. Defnyddiwyd menter Cymru Ifanc i gynnal yr ymgynghoriad hwn â phlant a phobl ifanc er mwyn llywio Cynllun Plant a Phobl Ifanc drafft Llywodraeth Cymru.

Mae gan Cymru Ifanc hanes sefydledig o sbarduno agendâu hawliau, ymgysylltiad a chyfranogiad plant a phobl ifanc ar draws Cymru. Rydyn ni'n gweithio ar ffurf partneriaeth gydlynus, gan gwmpasu plant, pobl ifanc a phartneriaid o ystod o sectorau a sefydliadau, er mwyn cefnogi hawliau plant a chyfranogiad; gan sicrhau bod plant a phobl ifanc o bob cefndir, amgylchiadau a gallu yn ganolog i bob penderfyniad a wneir. Ein ffocws yw galluogi lleisiau plant a phobl ifanc i gael eu clywed a'u gwrando ledled Cymru ar amrywiol bynciau.

Mae pandemig COVID-19 wedi cael effaith arwyddocaol ar blant a phobl ifanc yng Nghymru, ac ar waith Cymru Ifanc a'n partneriaid. Mae gweithio mewn partneriaeth wedi cefnogi a galluogi Cymru Ifanc i gyflawni'r ymgynghoriad hwn yn llwyddiannus, ac o ganlyniad, hoffen ni ddiolch yn ffurfiol i'n staff, ein grwpiau a'n holl bartneriaid a fu'n cefnogi'r gwaith hwn, gan gynnwys:

Tros Gynnal Plant
NSPCC
Diverse Cymru (Hype Cymru)
Fforwm Ieuenctid Casnewydd
Ysgol Gynradd Greenway
Ysgol Gynradd Trowbridge
Grŵp Cenedlaethol Rhanddeiliaid Ieuenctid
Gweithredu dros Blant / Action for Children
Cylch Chwarae Thornhill
Swyddfa Comisiynydd Plant Cymru
Llamau
Grŵp Pobl Ifanc Sir Benfro
NYAS

Hoffen ni fanteisio ar y cyfle yma i ddiolch i'r holl blant a phobl ifanc a fu'n cymryd rhan yn yr ymgynghoriad hwn – gan ymarfer eu hawl i ddefnyddio'u lleisiau a chael eu gwrando a'u clywed. 'Cael Llais – Cael Dewis.' Diolch yn fawr!

# CRYNODEB GWEITHREDOL

Trwy fenter Cymru Ifanc, gwnaeth Llywodraeth Cymru Plant yng Nghymru yn gyfrifol am arwain yr ymgynghoriad hwn ar y Cynllun Plant a Phobl Ifanc drafft, oedd wedi'i fwriadu ar gyfer plant a phobl ifanc rhwng 0 a 25 oed. Aeth Cymru Ifanc ati i ddylunio a chreu pecyn adnoddau a fyddai'n galluogi sefydliadau sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc i gyflwyno'r ymgynghoriad trwy weithdai ar-lein, wyneb yn wyneb neu ar sail un-i-un. Cyflwynodd Cymru Ifanc sesiynau hyfforddi i'n partneriaid i gefnogi'r cyflwyno, ochr yn ochr â chyflwyno ein sesiynau ein hunain ar gyfer yr ymgynghoriad hwn.

Ffocws yr ymgynghoriad oedd gwrando a chofnodi barn plant a phobl ifanc ar y saith ymrwymiad trawslywodraethol sy'n rhan o'r Cynllun Plant a Phobl Ifanc drafft.

Roedd yr ymgynghoriad yn canolbwyntio ar farn plant a phobl ifanc ac yn ceisio cyfleu eu hawgrymiadau er mwyn llywio a chefnogi datblygiad y Cynllun ymhellach, fel rhan o agenda cyfranogiad plant a phobl ifanc Llywodraeth Cymru a'r ymrwymiad i wireddu Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) i bob plentyn a pherson ifanc yng Nghymru.

Yn ystod mis Ionawr 2022, bu Cymru Ifanc, mewn partneriaeth ag ystod o sefydliadau a darparwyr ar draws Cymru, yn cynnal cyfres o ymgyngoriadau ar-lein, un-i-un ac wyneb yn wyneb. Bu cyfanswm o 173 o blant a phobl ifanc yn cyfranogi, gyda 18 sesiwn yn cael eu cyflwyno i'r grwpiau oedran canlynol:

- 0 - 7
- 7 - 11
- 11 - 25

Roedd Llywodraeth Cymru wedi gofyn bod Cymru Ifanc yn darparu gwybodaeth benodol iddyn nhw ar y Cynllun Plant a Phobl Ifanc drafft a'r saith ymrwymiad trawslywodraethol, gan gynnwys:

- Ydy'r ymrwymiad hwn yn gwneud synnwyr?
- Ydy e'n hawdd ei ddeall?
- Oes angen newid y geiriad o gwbl?
- Ydych chi'n meddwl bod yr ymrwymiad hwn yn bwysig? Os ydych chi, pam? (Sut bydd yn effeithio ar eich bywyd a'ch dyfodol?)
- Beth sy'n gallu cael ei wneud neu ei newid i wireddu hyn?
- Yn achos ymrwymiadau 1, 5 a 7: Beth yw eich barn am ychwanegu'r frawddeg hon i'r ymrwymiad?

Roedd pecyn adnoddau Cymru Ifanc, oedd yn cynnwys cynlluniau sesiwn, yn rhoi cyfle i'r plant a'r bobl ifanc oedd yn rhan o'r ymgynghoriad gynnig eu barn a'u safbwyntiau, yn ogystal ag awgrymiadau mewn ymateb i'r cwestiynau uchod. Ers hynny mae Cymru Ifanc wedi coladu'r ymatebion, y canfyddiadau allweddol a'r awgrymiadau, ac wedi'u hamlygu yn yr adroddiad hwn i Lywodraeth Cymru.

Awgrymiadau:

1. **Mae angen newid geiriad y saith ymrwymiad trawslywodraethol a'u cyflwyno mewn fformat mwy hwylus a hygyrch i blant a phobl ifanc. Mae angen i bawb ddeall y Cynllun Plant a Phobl Ifanc er mwyn gallu ei roi ar waith yn effeithiol. Hefyd dylai fod ar gael mewn gwahanol ieithoedd. Mae'r geiriad newydd a gynigir fel a ganlyn:**

Ymrwymiad 1:

Galluogi plant o bob cefndir i gael y cychwyn gorau mewn bywyd, gyda chefnogaeth darpariaeth blynyddoedd cynnar gydlynus, integredig ac effeithiol a chymorth rhieni. (Ychwanegiad: 'o ofal plant i ddatblygiad y blynyddoedd cynnar a llwybrau dysgu unigol' neu 'ychwanegiad sy'n pwysleisio'r pontio o'r cartref i'r ysgol trwy ofal plant').

Newid i:

**Dylai plant o bob cefndir gael y dechrau gorau mewn bywyd, gan gynnwys gwasanaethau blynyddoedd cynnar da a chefnogaeth i rieni neu ofalwyr. Dylai plant gael eu cefnogi gartref, mewn gofal plant ac mewn ysgolion.**

Darllen Hawdd:

**Bod gen ti lawer o bobl i ofalu amdanat ti (gartre ac mewn lleoedd eraill).**

Ymrwymiad 2:

Sicrhau tegwch ym mhrofiad addysg pob dysgwr, yn arbennig plant a phobl ifanc Du, Asiaidd ac o leiafrifoedd ethnig, plant a phobl ifanc ag anabledd a'r rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, gan godi lefel dyheadau a'u cefnogi i gyflawni hyd eithaf eu potensial.

Newid i:

**Mae gan bob plentyn a pherson ifanc yn yr ysgol, neu mewn addysg arall, hawl i gael eu trin yn deg ac yn gyfartal, a dylen nhw gael cyfle i gyflawni eu potensial llawn a chael eu cefnogi i gyrraedd eu nodau eu hunain.**

Darllen Hawdd:

**Bod ti'n dysgu llawer o bethau newydd gyda llawer o blant eraill, sut bynnag maen nhw'n edrych a ble bynnag maen nhw'n byw.**

Ymrwymiad 3:

Gwella'r pontio trwy addysg, hyfforddiant a chyflogaeth ar gyfer pobl ifanc ôl-16, gan gynnwys llwybrau cymwysterau.

Newid i:

**Dylai plant a phobl ifanc gael cyfle i ddatblygu, dysgu a thyfu ym mhob cyfnod o'u haddysg. Wrth iddyn nhw gyrraedd 16 oed, dylen nhw gael cyfleoedd ac opsiynau ar gyfer addysg, hyfforddiant a chyflogaeth.**

Darllen Hawdd:

**Bod ti'n cael help wrth roi cynnig ar bethau newydd neu orfod mynd i rywle newydd.**

Ymrwymiad 4:

Gwella llesiant emosiynol a meddyliol plant a phobl ifanc trwy gefnogaeth effeithiol, integredig a hygyrch.

Newid i:

**Dylai plant a phobl ifanc deimlo'n hapus ac yn ddiogel, dylen nhw gael help a chefnogaeth os nad ydyn nhw'n teimlo'n hapus neu'n ddiogel.**

Darllen Hawdd:

**Bod ti'n teimlo'n hapus ac yn ddiogel.**

Ymrwymiad 5:

Atal tlodi a lliniaru ei effeithiau fel bod plant a phobl ifanc o aelwydydd incwm isel yn gallu byw bywydau iachach a mwy cyflawn, a chyflawni eu potensial. (Ychwanegiad: 'estyn hyn i bob math ar anghydraddoldeb systemig').

Newid i:

**Dylai pob plentyn a pherson ifanc sy'n byw gyda theuluoedd sydd heb lawer o arian neu sy'n cael eu trin yn annheg am unrhyw reswm arall gael eu cefnogi i sicrhau eu bod nhw'n iach ac yn cael cyfle i gyflawni hyd eithaf eu potensial.**

Darllen Hawdd:

**Bod ti'n gallu chwarae a chael hwyl.**

Ymrwymiad 6:

Atal digartrefedd ieuenctid fel rhan o'n cynllun hirdymor i ddileu pob math ar ddigartrefedd.

Newid i:

**Ni ddylai unrhyw blentyn na pherson ifanc fod yn ddigartref. Dylai fod gan bob plentyn a pherson ifanc yng Nghymru gartref diogel, sicr i fyw ynddo.**

Darllen Hawdd:

**Bod gen ti'r holl bethau rwyt ti angen fel cartref, gwely, bwyd, dillad etc.**

Ymrwymiad 7:

Gwella'r canlyniadau i blant sydd â phrofiad o ofal (plant nad ydynt yn byw gyda'u rhieni neu sy'n derbyn gofal gan rywun arall), cefnogi teuluoedd sy'n wynebu amgylchiadau heriol i aros gyda'i gilydd lle bo modd a helpu plant i gael eu haduno â'u teuluoedd pan fyddan nhw ar wahân, lle mae hynny'n ddiogel. (Ychwanegiad: 'dim ond os yw gwneud hynny'n ddiogel', yn arbennig yng nghyd-destun trais domestig).

Newid i:

**Dylai pob plentyn a pherson ifanc gael eu cadw'n ddiogel. Dylai plant a phobl ifanc sydd ddim yn byw gyda'u rhieni neu sy'n derbyn gofal gan rywun arall gael eu cefnogi i aros gyda'u teulu neu fynd yn ôl at eu teulu, ond dim ond os yw hynny'n ddiogel.**

Darllen Hawdd:

**Bod pobl yn gwrando arnat ti i gael gwybod beth rwyt ti'n meddwl ac yn teimlo tu mewn.**

## 2. Dylai cefnogaeth gael ei darparu i rieni a phlant blynyddoedd

cynnar trwy gynnig gofal plant o safon uchel a gwasanaethau cefnogi i rieni neu ofalwyr a'u plant. Gall y dull gweithredu hwn gefnogi a darparu cyfleoedd gwell ar hyd taith plentyn neu berson ifanc trwy fyd addysg.

3. Dylai fod mwy o gefnogaeth i rieni ddarparu dechrau iach mewn bywyd i'w plant trwy ganllawiau a darpariaeth safonol bwyd iach ac ymarfer corff.

4. Dylai mwy o sefydliadau gefnogi rhieni a theuluoedd gyda phob agwedd ar y blynyddoedd cynnar.

5. Dylai fod mwy o bwyslais ar gydraddoldeb ym myd addysg. Mae pob person ifanc yn haeddu addysg o safon dda, beth bynnag yw eu hanghenion dysgu, p'un a oes ganddynt anabledd neu beidio, a ph'un a ydynt yn dod o gymuned Du, Asiaidd neu ethnig lleiafrifol neu beidio.

6. Dylai cefnogaeth berthnasol ac amserol fod ar gael ar gyfer plant a phobl ifanc ym myd addysg. Dylai fod gan awdurdodau lleol, ysgolion a sefydliadau allanol, gan gynnwys sefydliadau trydydd sector, ddull integredig a chydlynus o gynnig gwasanaethau a chefnogaeth.

7. Dylai mannau diogel i ddysgu fod yn hygyrch i bob plentyn a pherson ifanc.

8. Dylid cynnwys argymhellion o Gynllun Cydraddoldeb Hil Llywodraeth Cymru i gefnogi plant a phobl ifanc Du, Asiaidd ac o Leiafrifoedd Ethnig ar hyd eu haddysg.

9. Dylai fod mwy o gyngor a chefnogaeth gyrfaoedd yn cael eu darparu yn yr ysgol a'r coleg i helpu pobl ifanc i nodi eu llwybrau gyrfa unigol.

10. Dylai fod mwy o gefnogaeth a chyllid i ysgolion, i helpu gydag ymyrraeth gynnar, gwasanaethau iechyd meddwl a darpariaethau pobl ifanc. Gall plant a phobl ifanc gael mwy o drafferth ymdopi â straen a phryder yn ystod cyfnodau arholiadau a phontio, yn arbennig y pontio wrth adael yr ysgol ac ymgysylltu â gyrfa ar hyd llwybr addysg bellach.

11. Dylid datblygu canllaw arfer da ar gyfer pob gweithiwr proffesiynol sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc i sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cael cynnig y cyfleoedd gorau a'r gefnogaeth orau ar hyd eu plentyndod.

12. Dylai fod gwelliant a chynnydd yn y gwasanaethau cyfannol, ymyrraeth gynnar a'r gofal cefnogol ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n cael trafferthion iechyd meddwl neu lesiant. Ochr yn ochr â hynny dylid cynnig mwy o

hyfforddiant i gefnogi athrawon, gweithwyr ieuenctid a gweithwyr proffesiynol eraill sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc sy'n cael trafferthion iechyd meddwl neu lesiant.

13. Dylid darparu mynediad am ddim neu noddedig i blant i glybiau ffitrwydd a champfeydd. Byddai'r cynnig hwn yn cefnogi iechyd corff a meddwl, yn darparu amgylchedd iach, ac yn gwella llesiant plant a phobl ifanc.

14. Dylai fod mwy o gyllid ar gael i sefydliadau sy'n cefnogi plant a phobl ifanc a'u teuluoedd i aros gyda'i gilydd, pan fydd yn ddiogel gwneud hynny. Byddai hyn yn cefnogi teuluoedd lle mae plant a phobl ifanc mewn perygl o fynd i ofal. Dylai pob gwasanaeth ar gyfer plant a phobl ifanc sydd mewn perygl o syrthio i ofal neu'r rhai sydd yn y system ofal fod o'r safon uchaf, yn ddiogel ac yn gefnogol. Dylen nhw ystyried barn plant a phobl ifanc a gwneud y farn honno'n ganolog i benderfyniadau a wneir a gwasanaethau a gynigir, ochr yn ochr â sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cael eu cadw'n ddiogel.

15. Dylid darparu tai â chymorth a chefnogaeth i bobl ifanc sy'n gadael gofal, er mwyn atal digartrefedd a chefnogi unrhyw bobl ifanc sydd mewn perygl o fod yn ddigartref.

16. Dylai gofal maethu o safon dda gael ei darparu, gan y gallai fod angen cefnogaeth a chydymdeimlad ychwanegol ar bobl ifanc i ymdopi â'u sefyllfa.



# CYFLWYNIAD

Y Cynllun Plant a Phobl Ifanc yw teitl gweithredol dogfen fer a fydd yn cyflwyno uchelgais Llywodraeth Cymru ar gyfer sicrhau bod Cymru'n lle gwych i dyfu i fyny ynddo.

Bydd y ddogfen hon yn esbonio wrth blant a phobl ifanc sut mae Llywodraeth Cymru yn dymuno cyflawni'r uchelgais hon, beth mae eisoes wedi'i gyflawni, pa gamau sydd wedi'u cynllunio ar gyfer y tymor Senedd hwn, a pha fesurau deilliant y bydd yn eu defnyddio i'w gwneud ei hun yn atebol. Bydd y ddogfen yn cynnwys galwad i weithredu ar gyfer y sector cyhoeddus a'r trydydd sector.

Bydd y ddogfen yn cynnwys nifer bach o ymrwymiadau trawslywodraethol. Materion cymhleth yn ymwneud â phlant a phobl ifanc yw'r rhain, sy'n gysylltiedig â'r Rhaglen Lywodraethu, lle mae cydweithio trawslywodraethol a gweithredu ar y cyd ar draws portffolios Gweinidogion yn hanfodol bwysig i wella canlyniadau.

Mae'r rhestr dros dro fel a ganlyn:

- Galluogi plant o bob cefndir i gael y cychwyn gorau mewn bywyd, gyda chefnogaeth darpariaeth blynyddoedd cynnar gydlynus, integredig ac effeithiol, a chymorth rhieni
- Gwella dilyniant, dyheadau a deilliannau pob plentyn a pherson ifanc, a sicrhau tegwch i bob dysgwr o ran profiad a deilliannau addysg
- Gwella'r pontio trwy addysg, hyfforddiant a chyflogaeth i'r grŵp oedran ôl-16, gan gynnwys llwybrau cymwysterau
- Gwella llesiant meddyliol ac emosiynol plant a phobl ifanc trwy gefnogaeth effeithiol, integredig a hygyrch
- Atal tlodi a lliniaru ei effeithiau, fel bod pobl ifanc o aelwydydd incwm isel yn gallu byw bywydau iachach a mwy cyflawn, a chyflawni eu potensial
- Atal digartrefedd ieuenctid fel rhan o'n cynllun hirdymor i ddileu pob math o ddigartrefedd
- Gwella'r canlyniadau i blant sydd â phrofiad o ofal, cefnogi teuluoedd sy'n wynebu amgylchiadau heriol i aros gyda'i gilydd lle bo modd, a helpu plant i gael eu haduno â'u teuluoedd pan fyddan nhw ar wahân

# METHODOLEG

Prif bwrpas Cymru Ifanc yw cefnogi cyfranogiad a galluogi lleisiau plant a phobl ifanc i gael eu clywed a'u gwrando, er mwyn llywio penderfyniadau a wneir a allai effeithio ar eu bywydau; wedi'i seilio ar CCUHP a Safonau Cyfranogiad Cenedlaethol plant a phobl ifanc.

Mae'r pandemig diweddar a'r cyfnodau clo wedi gorfodi'r byd i weithio mewn ffordd wahanol. Mae Cymru Ifanc wedi addasu ei ddulliau cyfranogiad ac ymgynghori â phlant a phobl ifanc er mwyn sicrhau ein bod ni'n parhau i wrando ar eu lleisiau. Mae'r rhan fwyaf o waith Cymru Ifanc wedi cael ei gyflwyno ar-lein o bell, yn hytrach nag wyneb yn wyneb. Rydyn ni wedi datblygu dulliau addas ar hyd y pandemig i sicrhau bod safonau cyfranogiad ac arfer da yn parhau. Fodd bynnag, trwy weithio gyda sefydliadau partner ac wrth i'r cyfyngiadau gael eu llacio, rydyn ni bellach wedi gallu dechrau dychwelyd yn raddol ac yn ddiogel i sesiynau wyneb yn wyneb.

Lluniwyd y pecyn adnoddau i gael ei ddefnyddio ar-lein gan ddefnyddio Zoom neu Teams, wyneb yn wyneb neu mewn sesiynau un-i-un. Cyflwynwyd yr holl sesiynau hyfforddi i bartneriaid i'w cefnogi i gyflwyno'r ymgynghoriad ar-lein gan Cymru Ifanc.

Cyflwynwyd y sesiynau ymgynghori gan ddefnyddio'r cynllun sesiwn a'r ffurflenni casglu data a ddatblygwyd gan Cymru Ifanc. Roedd cynlluniau sesiwn ar gael hefyd ar wahân i blant 0-7 oed a phobl ifanc 11-25 oed. Hefyd roedd cyflwyniad PowerPoint ar gael ar gyfer y sesiynau ar-lein.

Gwnaed yr holl gyfranogwyr a gymerodd ran yn yr ymgynghoriad hwn yn ymwybodol o'u hawliau o ran trosglwyddo'u gwybodaeth i Lywodraeth Cymru. Cwblhawyd ffurflenni cydsynio gan Cymru Ifanc a sefydliadau partner.



# NOD AC AMCANION

Y nod oedd ymgysylltu â rhyw 200 o blant a phobl ifanc 0-25 o wahanol gefndiroedd oedd yn byw ar draws Cymru, gan gynnwys:

- Pobl ifanc sy'n rhieni neu'n ofalwyr
- Ystod o leoliadau neu ddarparwyr, wyth o leiaf
- Cynrychiolaeth gan blant a phobl ifanc sydd ag anghenion dysgu ychwanegol
- Cynrychiolaeth o ran y nodweddion gwarchodedig, gan gynnwys oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, rhyw a chyfeiriadedd rhywiol
- Cydbwysedd rhywedd

Seiliwyd y dull o ymgysylltu ar CCUHP, y Safonau Cyfranogiad Cenedlaethol ar gyfer plant a phobl ifanc a phum egwyddor Dull Gweithredu Seiliedig ar Hawliau Plant Comisiynydd Plant Cymru.

Nod cyffredinol yr ymgynghoriad hwn oedd casglu, ystyried a gwneud awgrymiadau wedi'u llywio gan farn plant a phobl ifanc ar yr ymrwymiadau trawslywodraethol wrth iddyn nhw gael eu datblygu.

# DATA CYFRANOGWYR

Roedd y cyfranogwyr a wahoddwyd i gymryd rhan yn yr ymgynghoriad hwn yn dod o ystod eang o leoliadau ar draws Cymru. Roedd cwblhau'r data cyfranogwyr a chydraddoldeb yn wirfoddol.

Cyflwynwyd cyfanswm o 18 o sesiynau gan Cymru Ifanc, a sefydliadau partner, gan gyrraedd cyfanswm o 173 o blant a phobl ifanc ledled Cymru.

Cyfanswm Nifer y Plant a'r Bobl Ifanc a fu'n Cyfranogi: 173

## RHYWEDD

| | |
|---|---|
| Gwryw | 56 |
| Benyw | 77 |
| Anneuaidd | 2 |
| Rhyngryw | 0 |
| Arall | 0 |
| Dewis peidio â dweud | 0 |
| Anhysbys | 38 |

## OEDRAN Y CYFRANOGWYR

| **Oed** | **Rhif** |
|---|---|
| 3 | 5 |
| 4 | 4 |
| 5 | 0 |
| 6 | 0 |
| 7 | 0 |
| 8 | 2 |
| 9 | 5 |
| 10 | 32 |
| 11 | 32 |
| 12 | 14 |
| 13 | 7 |
| 14 | 6 |
| 15 | 6 |
| 16 | 7 |
| 17 | 3 |
| 18 | 1 |
| 19 | 2 |
| 20 | 1 |
| 21 | 3 |
| 22 | 1 |
| 23 | 2 |
| 24 | 1 |
| 25 | 0 |
| Unknown | 39 |

## ETHNIGRWYDD

| | |
|---|---|
| Gwyn Cymreig neu Brydeinig | 0 |
| Gwyn o wlad arall | 2 |
| Du Cymreig neu Brydeinig | 3 |
| Du o wlad arall | 0 |
| Asiaidd Cymru neu Brydeinig | 2 |
| Asiaidd o wlad arall | 0 |
| Tras Gymysg | 3 |
| Roma, Sipsiwn, Teithwyr | 9 |
| Arall | 13 |
| Dewis peidio â dweud | 0 |
| Anhysbys | 141 |

## NIFER Y CYFRANOGWYR AR DRAWS ARDALOEDD AWDURDOD LLEOL

| | |
|---|---|
| Cymru gyfan | 41 |
| Pen-y-bont | 18 |
| Caerdydd | 62 |
| Casnewydd | 5 |
| Sir Benfro | 24 |
| RhCT | 9 |
| Abertawe | 5 |
| Torfaen | 9 |



**Nifer y Cyfranogwyr oedd yn siaradwyr Cymraeg:**

10

**Nifer y Cyfranogwyr a nododd eu bod yn LHDTCRhA+:**

4

**Nifer y Cyfranogwyr oedd ag anableddau neu gyflyrau iechyd:**

11

**Nifer y Cyfranogwyr oedd yn geiswyr lloches neu ffoaduriaid:**

1

**Nifer y Cyfranogwyr oedd â Phrofiad o Ofal neu'n Ymadawyr Gofal:**

16

**Nifer y Cyfranogwyr oedd â chyfrifoldebau gofal:**

35

**Nifer y Cyfranogwyr oedd yn rhieni ifanc:**

3



# DULL GWEITHREDU

Prif ddiben Cymru Ifanc yw cefnogi cyfranogiad a galluogi lleisiau plant a phobl ifanc i gael eu clywed a'u gwrando, er mwyn llywio penderfyniadau a wneir a allai effeithio ar eu bywydau; a hynny ar sail CCUHP a'r Safonau Cyfranogiad Cenedlaethol ar gyfer plant a phobl ifanc.

Mae'r pandemig diweddar a'r cyfnodau clo wedi golygu bod cyfranogiad plant a phobl ifanc mewn gweithgareddau ymgynghori, gan ymarfer erthygl 12 o CCUHP, wedi cael ei gyflwyno mewn ffordd wahanol i'r dulliau arferol a fyddai wedi cael eu defnyddio'n flaenorol. Yn ystod y cyfnod hwn mae'r rhan fwyaf o waith Cymru Ifanc wedi cael ei gyflwyno'n rhithwir yn hytrach nag wyneb yn wyneb. Mae Cymru Ifanc wedi datblygu dulliau addas ar hyd y pandemig o sicrhau bod safonau cyfranogiad ac arfer da yn cael eu cynnal, ochr yn ochr â pharhau â'r gwaith rhagorol gyda phlant a phobl ifanc Cymru. Fodd bynnag, trwy weithio gyda sefydliadau partner ac wrth i'r cyfyngiadau gael eu llacio, rydyn ni bellach wedi gallu dechrau dychwelyd yn raddol ac yn ddiogel i sesiynau wyneb yn wyneb.

I gefnogi'r dull newydd, creadigol o ymgynghori yn ystod ac wedi'r pandemig mae Cymru Ifanc wedi datblygu dogfen ganllaw, Dulliau o Ymgynghori â Phlant a Phobl Ifanc, a ddefnyddiwyd i lywio'r gwaith o ddatblygu a chyflwyno'r ymgynghoriad hwn.

Cyflwynwyd yr ymgynghoriad hwn ar y Cynllun Plant a Phobl Ifanc drafft gan Cymru Ifanc a sefydliadau partner gan ddefnyddio sesiynau ar-lein ac wyneb yn wyneb. Cyflwynodd Cymru Ifanc sesiynau ar-lein ac wyneb yn wyneb, ochr yn ochr â chefnogi partneriaid i gyflwyno'r ymgynghoriad eu hunain yn uniongyrchol i blant a phobl ifanc yn eu lleoliadau trwy ddarparu hyfforddiant a phecyn adnoddau i gynnal yr ymgynghoriad a chasglu'r data gofynnol. Aeth Cymru Ifanc ati i ddatblygu a dylunio dwy sesiwn gweithdy unigryw i gasglu barn plant a phobl ifanc, oedd yn cyfateb i oedrannau'r cyfranogwyr ac â dogfennau cefnogi cysylltiedig, gan gynnwys ffurflen gydraddoldeb, taflenni casglu data, cyflwyniad PowerPoint a ffurflen mynegi diddordeb. Cyflwynwyd y sesiynau ar blatfformau cyfarfodydd ar-lein fel Zoom a Teams, ochr yn ochr â sesiynau wyneb yn wyneb.

Nododd Cymru Ifanc ddarparwyr a lleoliadau i gefnogi'r gwaith hwn trwy ein rhwydweithiau a'n partneriaid ar draws Cymru, er mwyn casglu cynrychiolaeth deg o farn plant a phobl ifanc. Cynigiwyd hyfforddiant i'r holl sefydliadau partner, a derbyniodd pump o'r sefydliadau hyfforddiant i'w cefnogi i gyflwyno'r ymgynghoriad hwn.

Roedd y cwestiynau ymgynghori ar gyfer pob un o'r saith ymrwymiad fel a ganlyn:

1. Ydy'r ymrwymiad hwn yn gwneud synnwyr?
2. Ydy e'n hawdd ei ddeall?

3. Oes angen newid y geiriad o gwbl?
4. Ydych chi'n meddwl bod yr ymrwymiad hwn yn bwysig? Os ydych chi, pam? (Sut bydd yn effeithio ar eich bywyd a'ch dyfodol?)
5. Beth sy'n gallu cael ei wneud neu ei newid i wireddu hyn?
6. Yn achos ymrwymiadau 1, 5 a 7: Beth yw eich barn am ychwanegu'r frawddeg hon i'r ymrwymiad?

Er mwyn casglu adborth ar sut gallai Llywodraeth Cymru fonitro cynnydd, gofynnwyd y cwestiynau canlynol:

1. Sut byddech chi'n gwybod ydy Llywodraeth Cymru yn gwneud gwaith da?
2. Sut byddech chi'n mesur llwyddiant Llywodraeth Cymru o ran cyflawni'r ymrwymiadau?
3. Beth hoffech chi ei weld yn digwydd o'ch cwmpas i'ch sicrhau chi bod Llywodraeth Cymru yn gwneud gwaith da tuag at gyflawni'r saith ymrwymiad?
4. Sut dylai'r Cynllun gael ei gyflwyno?

Ar ben hynny, gofynnwyd i'r cyfranogwyr:

1. Beth hoffech chi alw'r cynllun?
2. Hoffech chi ymwneud â datblygiad pellach y cynllun?
3. Beth mae'r uchelgais hon yn ei olygu i blant a phobl ifanc?
4. Beth sy'n ofynnol i'w gwireddu?
5. Beth sydd angen newid i'w gwireddu?
6. Ydych chi'n meddwl bod yr ymrwymiadau hyn yn y drefn gywir?
7. Oes yna unrhyw feysydd eraill rydych chi'n meddwl sy'n bwysig?

Cafodd ffurflen mynegiant o ddiddordeb ei chynnwys yn y pecyn adnoddau er mwyn i'r bobl ifanc fod yn rhan o ddatblygiadau pellach i'r cynllun.

Addaswyd y cwestiynau a'r wybodaeth i gyd-fynd â nhw er mwyn eu gwneud nhw'n hygyrch i blant a phobl ifanc ar draws y tri ystod oed. Mae Cymru Ifanc a'r sefydliadau partner i gyd yn hwyluswyr sy'n brofiadol o ran gweithio'n uniongyrchol gyda phlant a phobl ifanc. O ganlyniad, defnyddiwyd dull hwylus i blant a iaith addas ar hyd y broses o ddylunio a chyflwyno'r ymgynghoriad. Darparwyd dulliau amrywiol yn y cynllun sesiwn i gasglu'r wybodaeth gan bobl ifanc, gan gynnwys trafodaethau, cwestiynau agored ac offer fel Padlet a Jamboard.

Bu'r ymgynghoriad hwn yn ystyried barn plant a phobl ifanc hyd at 25 oed. Mae Cymru Ifanc wedi datblygu arferion i sicrhau bod hyd yn oed y plant ifancaf yn gallu cyfranogi ac ymarfer eu hawliau trwy sicrhau bod eu lleisiau'n cael eu clywed a'u gwrando, er mwyn llywio penderfyniadau a wneir a allai effeithio ar eu bywydau.

Cwblhaodd pob cyfranogwr a fu'n rhan o'r ymgynghoriad hwn ffurflen gydsynio gyda Cymru Ifanc, eu hysgol neu eu sefydliad partneriaeth at ddibenion GDPR, ac fe'u gwnaed yn ymwybodol o'u hawliau o ran eu data personol.

Mae'r ymgynghoriad hwn wedi galluogi plant a phobl ifanc i fynegi eu barn a chyflwyno awgrymiadau'n uniongyrchol i Lywodraeth Cymru, fel bod eu lleisiau'n cael eu clywed a'u bod yn dylanwadu ar newidiadau cadarnhaol

mewn perthynas â'r Cynllun Plant a Phobl Ifanc drafft.

## Dull Gweithredu ar gyfer y Blynyddoedd Cynnar

Mae Sylw Cyffredinol CCUHP Rhif 7, 'Rhoi Hawliau Plant ar Waith yn ystod Plentyndod Cynnar', yn nodi bod hawl gan hyd yn oed y plant ifancaf, fel deiliaid hawliau, i fynegi eu barn, ac y dylid 'rhoi pwys dyledus ar hynny yn unol â'u hoed'. Rhaid i ymgyngoriadau fod yn briodol o safbwynt capasiti'r plant a'u lles pennaf. Mae gofyn bod oedolion yn mabwysiadu agwedd plentyn-ganolog, ac yn dangos amynedd a chreadigrwydd trwy addasu eu disgwyliadau i ddiddordebau, lefelau dealltwriaeth, a dewis ddulliau cyfathrebu plentyn ifanc.

At ddibenion dull gweithredu blynyddoedd cynnar yr ymgynghoriad hwn, cafodd y saith ymrwymiad trawslywodraethol eu haddasu'n fersiynau darllen hawdd, gyda lluniau i gyd-fynd â nhw er mwyn helpu'r plant i ddeall yr ymrwymiadau a'u galluogi i roi adborth.  Yna cawson nhw'r dasg o gysylltu'r lluniau a'r gosodiadau â chyfres o emosiynau er mwyn casglu eu barn ar bob un o'r ymrwymiadau, gan ddefnyddio dull seiliedig ar chwarae neu chwarae rôl ar gyfer y gweithgaredd ymgynghori.

## Cyfyngiadau

Cafodd yr ymgynghoriad ei ddatblygu a'i gyflwyno o fewn terfyn amser tynn:

Cynllunio paratoadol a datblygu adnoddau
**4-7 Ionawr 2022**

Hwyluso'r sesiynau
**10-23 Ionawr 2022**

Dadansoddi ac adrodd
**24-28 Ionawr 2022**

Roedd nifer o gyfyngiadau'n gysylltiedig â chynnal yr ymgynghoriad hwn o fewn y terfynau amser hyn, gan gynnwys:

- Trefnu partneriaid i hwyluso sesiynau
- Ymgynghori ag ystod amrywiol o blant a phobl ifanc
- Ymgynghori â tharged o 200 o blant a phobl ifanc

Cyfyngiad arall allweddol oedd bod pobl ifanc yn mynd i lai o ymgyngoriadau, sesiynau, gweithgorau a sesiynau ieuenctid yn gyffredinol ar-lein ar draws y Deyrnas Unedig. Yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf, cynigiwyd llawer iawn o gyfarfodydd rhithwir i blant a phobl ifanc ac mae consensws, ar draws cyrff trydydd sector, bod nifer y bobl ifanc sy'n ymgysylltu ar-lein yn gostwng, ochr yn ochr â'r bobl ifanc eu hunain yn dweud y byddai'n well ganddyn nhw gael sesiynau wyneb yn wyneb, cyhyd â bod hynny'n ddiogel. Mae rhai lleoliadau'n caniatáu sesiynau wyneb yn wyneb, ond nid oedd pob lleoliad mewn sefyllfa i wneud hynny yn

ystod y cyfnod ymgynghori hwn. Bu Cymru Ifanc, a'n partneriaid, yn cyflwyno wyneb yn wyneb lle roedd hynny'n ddiogel fel rhan o'r ymgynghoriad hwn, ochr yn ochr â chyflwyno ar-lein lle roedd angen hynny.

TI sicrhau cysondeb wrth gasglu a choladu'r data, datblygodd Cymru Ifanc gynlluniau sesiwn clir wedi'u halinio â'r gwahanol oedrannau, ffurflen gyson ar gyfer data adborth er mwyn ei goladu, a chynigiodd hyfforddiant i sefydliadau partner a hwyluswyr. Trwy ddefnyddio'r dull gweithredu hwn sicrhawyd bod nodau ac amcanion yr ymgynghoriad yn cael eu deall, bod y sesiynau'n cael eu cyflwyno mewn modd cyson, a bod y data a gasglwyd ac yr adroddwyd arno yn cael ei gofnodi mewn modd cyson. Cafodd yr holl ddata ei goladu a'i ddadansoddi gan Cymru Ifanc gan ddefnyddio dull gweithredu thematig.

Bu'n rhaid newid ac aralleirio elfen Blynyddoedd Cynnar yr ymgynghoriad i fod yn oed-briodol a chefnogi dealltwriaeth o'r Cynllun Plant a Phobl Ifanc. O ganlyniad, roedd rhai cyfyngiadau wrth gyflwyno'r ymgynghoriad hwn i'r ystod oed 0-7 o ran archwilio'r cynllun yn fanwl. Llwyddodd Cymru Ifanc, trwy awydd ac arbenigedd i alluogi pob plentyn a pherson ifanc i sicrhau bod eu lleisiau'n cael eu clywed, i addasu'r ymgynghoriad gan ddefnyddio methodoleg sefydledig ar gyfer ymgynghori â'r blynyddoedd cynnar i gasglu barn yr ystod oed ifancaf yma yn effeithiol. Fodd bynnag, nid oedd modd i'r grŵp oed yma ymateb yn llawn i bob agwedd ar y Cynllun Plant a Phobl Ifanc drafft oherwydd ei gymhlethdod.



# CANFYDDIADAU ALLWEDDOL

Uchelgais Llywodraeth Cymru yw gwneud Cymru'n lle gwych i dyfu i fyny: Beth mae'r uchelgais honno'n ei olygu i blant a phobl ifanc?

Dywedodd plant a phobl ifanc fod yr uchelgais hon yn bwysig iawn, ac y bydd yn cefnogi plant a phobl ifanc i gyflawni eu potensial, a fydd yn ei dro yn cefnogi cenedlaethau'r dyfodol yng Nghymru. Roedd neges eglur iawn bod yr uchelgais hon yn bwysig ar gyfer plant a phobl ifanc y presennol a'r dyfodol, er mwyn creu amgylchedd lle gall plant a phobl ifanc ffynnu a datblygu ar hyd pob cyfnod o'u bywydau.

Beth sy'n ofynnol i wireddu'r uchelgais hon?

Teimlai'r cyfranogwyr, os oedd yr uchelgais hon i gael ei gwireddu, y byddai angen sicrhau cynllunio gofalus, ystyriaethau, cyllid digonol a chefnogaeth ar draws holl ymrwymiadau'r Cynllun. Ar ben hynny, mynegwyd barn y dylid gwneud Llywodraeth Cymru'n atebol, er mwyn annog a chefnogi gweithredu'r Cynllun yn llwyddiannus, fel bod modd cyflawni'r uchelgais hon. Yn y bôn, teimlai pobl ifanc y dylai pawb yn ein cymdeithasau fod yn gyfrifol a chyfrannu at yr uchelgais hon, er mwyn iddi fod yn gwbl lwyddiannus a chyflawni effaith gynaliadwy, arwyddocaol a newid cadarnhaol i'r holl blant a phobl ifanc sy'n byw yng Nghymru.

'Mae angen i bobl roi'r gorau i gam-drin cymdeithas, ac mae angen i'r holl genedlaethau ddod at ei gilydd i greu newid.'

**Ymrwymiad 1:**

**Galluogi plant o bob cefndir i gael y cychwyn gorau mewn bywyd, gyda chefnogaeth darpariaeth blynyddoedd cynnar gydlynus, integredig ac effeithiol a chymorth rhieni.**

(Ystyried ychwanegu: 'o ofal plant i ddatblygiad y blynyddoedd cynnar a llwybrau dysgu unigol' neu 'ychwanegiad sy'n pwysleisio'r pontio o'r cartref i'r ysgol trwy ofal plant').

Thema gyffredin o'r adborth oedd bod yr ymrwymiadau ddim yn gwneud synnwyr. Nodwyd bod newid geiriad pob un ohonynt yn hanfodol er mwyn i bobl ifanc eu deall yn glir a gwneud synnwyr ohonyn nhw. Yn achos ymrwymiad 1, tynnodd y cyfranogwyr sylw at y geiriau canlynol i'w newid: galluogi, integredig, cydlynus a darpariaeth.

Roedd plant a phobl ifanc yn credu'n bendant bod ymrwymiad 1 yn bwysig, oherwydd bod pawb yn haeddu dechrau da mewn bywyd, ac mae'n hanfodol cael cefnogaeth dda i blant a'u teuluoedd wrth iddyn nhw dyfu, o'u genedigaeth ymlaen.

‘Mae ymyrraeth gynnar yn allweddol.’

Dywedodd y gofalwyr ifanc a fu’n cymryd rhan eu bod yn teimlo bod angen gwneud mwy i helpu i adnabod teuluoedd sydd mewn angen. Aethant ymlaen i awgrymu y dylid atgyfeirio teuluoedd mewn angen i sefydliadau perthnasol a/neu y dylen nhw gael eu nodi ganddynt, fel nad ydynt yn colli cyfle i gael unrhyw gefnogaeth angenrheidiol a hanfodol. Roedd hyn yn arbennig o amlwg yng nghyswllt ymrwymiad 1 o ran cefnogi plant a theuluoedd o’r blynyddoedd cynnar ymlaen.

Roedd pobl ifanc yn cytuno’n gryf mai’r blynyddoedd cynnar yw sylfaen bywyd plentyn, sy’n helpu i lunio’u llwybr i’r dyfodol, ac yn eu cefnogi i gyflawni hyd eithaf eu potensial. Roedd consensws, os nad yw hynny’n derbyn sylw neu’n cael ei gefnogi’n briodol, y gallai plant a theuluoedd ddioddef, ac yn fwy na hynny, y gallai Cymru fel cenedl ddioddef hefyd.

Os yw ymrwymiad 1 i weithio a sicrhau newid parhaol i blant a phobl ifanc, awgrymwyd bod mannau diogel i fynd a chwarae yn hanfodol, bod angen dosbarthiadau llai i sicrhau gwell profiad ac ansawdd addysg, yn arbennig i gefnogi plant sydd ddim yn hoffi bod ymhlith torfeydd, ac i ddarparu amgylchedd sy’n hybu dysgu. Yn ei dro, byddai cynnig gwell darpariaethau chwarae ac addysg yn sicrhau bod modd i bob plentyn a pherson ifanc ffynnu.

Awgrymwyd y dylai fod un man cyswllt i sicrhau bod y gefnogaeth yn cael ei rhoi ac nad yw pobl yn cael eu gadael ar ôl; gallai cefnogaeth gan sefydliadau neu wasanaethau lleol helpu a chefnogi Llywodraeth Cymru i gyflawni’r ymrwymiad hwn. Ar ben hynny, pwysleisiodd y cyfranogwyr fod angen mwy o gyllid i ysgolion ac addysg i rieni er mwyn cefnogi datblygiad y blynyddoedd cynnar a’r pontio o fod yn blant i fod yn bobl ifanc. Gwnaeth y cyfranogwyr sylwadau y dylid annog a chefnogi pobl ifanc, beth bynnag yw eu cefndir cymdeithasol ac economaidd, i’w helpu i gyflawni eu potensial.


**‘Sicrhau bod plant o bob cefndir yn cael y dechrau gorau mewn bywyd, ac yn cael eu cefnogi gan eu cymuned yn ystod eu blynyddoedd cynnar e.e. rhieni a meithrinfeydd.’**

| |
|---|
| Mae angen dechrau gyda’r blynyddoedd cynnar a chodi lefel disgwyliadau plant a phobl ifanc |
| Efallai lluniau a fersiwn hawdd ei darllen i’r rhai sydd angen hynny? Mae hyn ar gyfer pobl ifanc, felly mae angen bod gwahanol lefelau |
| Ie – mae angen calonogi mwy o bobl ifanc eu bod nhw’n gallu cyflawni er eu bod yn dod o Gymru neu o sefyllfa sosio-economaidd wael. Yn arbennig yn achos addysg bellach |
| Mwy o arian i ysgolion ac addysg rhieni yn achos myfyrwyr ysgol uwchradd |
| Mae’n gwneud synnwyr: Geiriad hawdd ei ddeall |
| Pwysig dros ben! Mae’r blynyddoedd cynnar yn wir yn effeithio ar blant a sut maen nhw’n teimlo am y byd |
| Credu bod angen ei roi mewn ffurf symlach i’r blynyddoedd iau/cynradd |
| Angen meddwl am y geiriau: cydlynus, integredig ac effeithiol. Rwy’n credu bod gormod o eiriau |
| Beth sy’n gallu cael ei wneud neu ei newid i wireddu hyn? |
| Mae’n gwneud synnwyr fel arddegwr/oedolyn ifanc! Ond gallai geiriau fel ‘cydlynus’ + ‘integredig’ + ‘darpariaeth’ fod yn anodd i blant ifancach eu deall! Fwy na thebyg dyma un o’r ymrwymiadau pwysicaf, felly gwych mai hwn sy’n dod gyntaf! |




## Canfyddiadau'r Blynyddoedd Cynnar


### Bod gen ti lawer o bobl i ofalu amdanat ti (gartre ac mewn lleoedd eraill).











Bu'r plant oedd yn rhan o'r sesiwn hon yn defnyddio emojis i fynegi eu barn ar y saith ymrwymiad trawslywodraethol. Defnyddiodd y mwyafrif emoji hapusrwydd, gydag un plentyn yn dangos cyffro ac un arall yn dangos pryder. Roedd y gefnogaeth gyffredinol i'r ddelwedd ar gyfer yr ymrwymiad uchod yn ysgubol.

Bu'r plant yn rhannu pwy sy'n gofalu amdanyn nhw ar hyn o bryd trwy restru enwau eu teuluoedd a meithrinfeydd, ac yn dangos lefel o ddealltwriaeth a chefnogaeth i'r ymrwymiad cyntaf.

**Ymrwymiad 2:**

**Sicrhau tegwch ym mhrofiad addysg pob dysgwr, yn arbennig plant a phobl ifanc Du, Asiaidd ac o leiafrifoedd ethnig, plant a phobl ifanc ag anabledd a'r rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, gan godi lefel dyheadau a'u cefnogi i gyflawni hyd eithaf eu potensial.**

Ar hyd yr ymgynghoriad mynegodd plant a phobl ifanc eu barn bod yr ymrwymiad hwn yn bwysig, ac na ddylai neb gael eu gadael allan ym myd addysg oherwydd sut maen nhw'n edrych, eu gallu, eu diwylliant na'u cefndir ethnig. Teimlai plant a phobl ifanc fod cefnogaeth ddigonol mewn ysgolion i unigolion ag anghenion dysgu ychwanegol mwy difrifol, ond roedden nhw'n teimlo nad yw'r rhai sydd â llai o anghenion dysgu ychwanegol a phlant

o gymunedau Du, Asiaidd ac ethnig lleiafrifol yn cael y gefnogaeth angenrheidiol ar hyn o bryd. Fe ddywedson nhw nad oes gan ysgolion ar hyn o bryd ddigon o amser, arian nac adnoddau i helpu pawb. Roedden nhw'n teimlo, heb y gefnogaeth yma a ffocws ar degwch i bob plentyn a pherson ifanc, y gallai effeithio ar eu bywydau ac amddifadu Cymru o ddylanwad cadarnhaol a chyfleoedd teg a chyfartal i bob plentyn a pherson ifanc.

Mynegodd y plant a'r bobl ifanc a fu'n cyfranogi ac a nododd fod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol pa mor bwysig oedd derbyn cymorth priodol. Roedden nhw'n disgrifio eu hysgol, neu unrhyw ysgol, fel lle anodd i fod ynddo heb gefnogaeth ychwanegol. Soniwyd sawl tro am gyllid fel problem ac ateb, nid yn unig yn achos yr ymrwymiad hwn ond ar draws pob un o'r saith ymrwymiad, ac mae'n ffactor allweddol i'w ystyried, ei gynyddu a'i wella er mwyn cefnogi pob plentyn a pherson ifanc yng Nghymru, ac er mwyn i Lywodraeth Cymru gyflawni'r ymrwymiadau. Dywedodd dysgwyr oedd ag anghenion ychwanegol a fu'n rhan o'r ymgynghoriad hwn eu bod yn aml yn teimlo eu bod yn colli cyfleoedd ychwanegol, oherwydd eu bod ar amserlen gyfyngedig yn yr ysgol, a bod y dull gweithredu hwn yn cyfrannu at system addysg annheg. Roedden nhw'n awgrymu y bydden nhw'n hoffi cael gwell mynediad a darpariaeth i ddysgu sgiliau newydd trwy weithdai ar bynciau fel rheoli materion ariannol a sgiliau bywyd, a fyddai yn eu tro yn eu cefnogi i bontio i fod yn oedolion annibynnol.

Roedden nhw'n teimlo bod angen mwy o ddealltwriaeth a chefnogaeth i ysgafnhau'r pwysau maen nhw'n ei wynebu yn yr ysgol, ac yn dweud y byddai Addysg Bersonol a Chymdeithasol yn faes pwnc da ar gyfer cyflwyno, hybu a chefnogi nodau'r ymrwymiad hwn. Ar ben hynny, gwnaethon nhw'r sylw fod angen hyfforddiant ar athrawon i wella ymwybyddiaeth a'u gallu i gefnogi'r myfyrwyr hynny sydd angen cefnogaeth fwyaf, a sicrhau trwy hynny bod dyheadau pob dysgwr yn cynyddu a'u bod yn cael cefnogaeth lawn i gyflawni eu potensial.


**'Mae tegwch yn air mor bwysig yn y cyd-destun hwn, ond efallai na fydd pobl ifanc yn deall hynny'n llwyr.'**


**'Sicrhau bod gan bawb sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc y sgiliau cywir i gynnal y tegwch hwn. Yn aml mae pryder ynghylch gwneud rhywbeth o'i le, dweud rhywbeth yn y ffordd anghywir ac ypsetio rhywun.'**


## Canfyddiadau Blynyddoedd Cynnar

**Bod ti'n dysgu llawer o bethau newydd gyda llawer o blant eraill, sut bynnag maen nhw'n edrych a ble bynnag maen nhw'n byw.**




Bu'r plant oedd yn rhan o'r sesiwn hon yn defnyddio emojis i fynegi eu barn ar y saith ymrwymiad trawslywodraethol.

Mynegodd y mwyafrif hapusrwydd neu gyffro wrth weld y ddelwedd ymgynghori, gydag un plentyn ifanc yn mynegi tristwch ac un arall yn dangos teimlad crac. Eto, mae mwyafrif yr emojis yn dangos cefnogaeth i'r ddelwedd ar gyfer yr ymrwymiad uchod.

### Ymrwymiad 3:

**Gwella'r pontio trwy addysg, hyfforddiant a chyflogaeth ar gyfer pobl ifanc ôl-16, gan gynnwys llwybrau cymwysterau.**

Roedd yr adborth ar gyfer yr ymrwymiad hwn yn cael ei lywodraethu i raddau helaeth gan oed y cyfranogwyr a'u lefel dealltwriaeth.

Nid oedd gan blant iau fawr ddim dealltwriaeth o'r ymrwymiad hwn, os o gwbl, ac roedd y geiriad yn achosi dryswch. Bu'n rhaid egluro 'pontio' yn arbennig mewn sawl sesiwn. Roedd pobl ifanc hŷn yn deall yr ymrwymiad a'r hyn mae'n ei gwmpasu ac yn cytuno bod hynny'n bwysig, gan y byddai'n darparu mwy o gyfleoedd a dewisiadau i

bobl ifanc wrth iddyn nhw gyrraedd oedran hyfforddiant a chyflogaeth. Fe wnaethon nhw'r sylw y bydd parhau i gefnogi pobl ifanc, gan gynnwys llwybrau cymwysterau, yn helpu i hwyluso llwybr gyrfa cliriach i'r grŵp oedran ôl-16, ac roedden nhw'n cefnogi'r ymrwymiad hwn. Cynigiodd pobl ifanc oedd â phrofiad uniongyrchol o'r broses o adael yr ysgol a mynd i addysg bellach a chyflogaeth adborth ar eu profiadau eu hunain. Roedden nhw'n dweud eu bod wedi profi diffyg cefnogaeth yn ystod y cyfnod pontio hwn, ac ar ben hynny, eu bod yn teimlo, petai'r ymrwymiad hwn wedi bod ar waith eisoes, y gallai fod wedi darparu'r gefnogaeth angenrheidiol i'w galluogi i gyflawni hyd eithaf eu potensial. Amlygwyd yr angen am ddarparu cyngor gyrfaoedd o safon uchel, arweiniad a chefnogaeth ynghylch cael mynediad i addysg bellach, cyflogaeth neu hyfforddiant gan bobl ifanc oedd â phrofiad o'r broses hon.

**'Cyn gadael yr ysgol, gofalwch eich bod chi'n gwybod pa opsiynau sydd gennych chi, a'ch bod chi'n gwybod beth yw goblygiadau gwneud pob un o'r penderfyniadau hynny.'**

Mae angen mwy o gefnogaeth yn yr ysgol a'r coleg i helpu pobl ifanc i sicrhau swyddi a chwilio am lwybrau gyrfa. Nodwyd bod y grŵp ôl-16 o bosib wedi sefyll arholiadau'n ddiweddar, a bod hynny'n gallu achosi pwysau a straen aruthrol, gan effeithio ymhellach ar y cyfnod pontio i'r grŵp oed yma. Dylai amrywiaeth ehangach o brofiadau a chyfleoedd fod ar gael, a allai gynnwys ffocws ar dechnoleg a chwarae gêmau er mwyn cefnogi penderfyniadau gwybodus a chynnig dewisiadau yn lle llwybrau mwy traddodiadol.


Ar ben hynny, pwysleisiodd pobl ifanc yr angen am fwy o gefnogaeth ynghylch llesiant i bobl ifanc, oherwydd gall y cyfnod pontio hwn effeithio ar eu hiechyd meddwl a'u llesiant ac, mewn gwirionedd, effeithio yn sgîl hynny ar eu dewisiadau neu'r llwybrau maen nhw'n eu dilyn.

Mae rhwydwaith cefnogi cryf ar gyfer plant a phobl ifanc yn hanfodol i sicrhau effeithiolrwydd a llwyddiant yr ymrwymiad hwn. Dywedodd pobl ifanc fod angen dealltwriaeth, gan fod rhai o bosib wedi profi heriau yn yr ysgol, a bod hynny'n gallu effeithio'n sylfaenol ar eu pontio a chyfyngu ar yr opsiynau sydd ar gael iddynt. Gan fod y profiadau yn yr ysgol yn amrywio cymaint, roedden nhw'n awgrymu y dylid darparu cefnogaeth i helpu i oresgyn unrhyw rwystrau i addysg bellach, hyfforddiant a chyflogaeth. Argymhelliad hollbwysig ganddynt oedd bod angen adolygu arfer da, er mwyn sicrhau bod yr arferion gorau yn cael eu gwreiddio a'u rhaeadru ar draws pob gwasanaeth, a bod cefnogaeth yn cael ei chynnig i blant a phobl ifanc, gan sicrhau bod holl bobl ifanc Cymru yn cael y cyfleoedd gorau a'r gefnogaeth orau wrth ddewis eu llwybr ôl-16.

**'Ie! Mae hyn mor bwysig. Mae angen annog pobl ifanc i gymryd gwahanol gyfleoedd. Mae angen roi anogaeth wirioneddol iddyn nhw, a dangos iddyn nhw eu bod nhw'n cael eu trystio, a bod pobl yn credu ynddyn nhw.'**

## Canfyddiadau Blynyddoedd Cynnar

### Bod ti'n cael help wrth roi cynnig ar bethau newydd neu orfod mynd i rywle newydd.











Bu'r plant oedd yn rhan o'r sesiwn hon yn defnyddio emojis i fynegi eu barn ar y saith ymrwymiad trawslywodraethol.

Mynegodd un plentyn ddryswch a dewisodd un arall yr emoji ansicr, ond mynegodd gweddill y plant hapusrwydd neu gyffro.

Mynegodd y plant hefyd ar lafar:

- Rydyn ni'n ymweld â'r ysgol fawr (meithrinfa)
- Mae oedolion yn dangos i ni beth i'w wneud

**Ymrwymiad 4:**

**Gwella llesiant emosiynol a meddyliol plant a phobl ifanc trwy gefnogaeth effeithiol, integredig a hygyrch.**

Roedd cytundeb pendant bod yr ymrwymiad hwn yn bwysig iawn, gan fod iechyd meddwl a llesiant yn gallu effeithio'n sylweddol ar fywydau plant a phobl ifanc a'r dewisiadau maen nhw'n eu gwneud. Mae angen cefnogaeth ar gyfer y pontio o fod yn blentyn i ddod yn oedolyn gan fod y gwasanaethau sy'n cael eu darparu yn gwbl wahanol, ac o ganlyniad, gall hynny gael effaith negyddol ar fywydau pobl ifanc, y dewisiadau maen nhw'n eu gwneud ac a ydyn nhw'n symud ymlaen i addysg bellach, hyfforddiant neu gyflogaeth. At ei gilydd, roedd teimlad bod angen mwy o hyfforddiant a gwasanaethau i bobl broffesiynol gefnogi iechyd meddwl a llesiant plant a phobl ifanc.

**‘Mae hyn wedi cael ei addo ers amser hir. Ai addewid wag yw hi? Beth sy’n mynd i gael ei drefnu mewn gwirionedd?’**

Ar ben hyn, roedd adborth y cyfranogwyr yn canolbwyntio ar yr angen am gefnogaeth hygyrch, lefel is, i wasanaethau iechyd meddwl, i atal plant a phobl ifanc rhag bod angen help clinigol yn y dyfodol, a thueddu at fodelau cymorth ac ymyrraeth cynharach. Ar hyd yr ymgynghoriad, roedd adborth y cyfranogwyr yn gyson, ac yn pwysleisio angen am fwy o hyfforddiant i weithwyr proffesiynol ac addysg, i blant a phobl ifanc yn benodol, mewn perthynas â’r ymrwymiad hwn ond hefyd, yn arwyddocaol, ar draws yr holl ymrwymiadau’n gyffredinol. Yn arbennig, gwnaed sylwadau eto bod angen sicrhau dull gweithredu cyson ymhlith athrawon a phobl broffesiynol sy’n gweithio’n uniongyrchol gyda phlant a phobl ifanc, yn troi o gwmpas gwasanaethau ymyrraeth gynnar, a mwy o hyfforddiant i’r gweithlu er mwyn darparu cefnogaeth, fel bod lefelau llesiant a iechyd meddwl plant a phobl ifanc yn cael eu hatal rhag gwaethygu a throi’n argyfwng yn ddiangen.  Tynnodd pobl ifanc sylw at y ffaith bod y cyfryngau cymdeithasol, er eu bod nhw’n gallu bod yn beth positif, hefyd yn gallu cael effaith sylweddol ar eu hiechyd meddwl.

Dyma rai o’r effeithiau eraill y cyfeiriwyd atynt yn ystod yr ymgynghoriad hwn:

- Bwlio
- Pwysau yn yr ysgol
- Pwysau COVID-19 yn arwain at bryder mewn sefyllfaoedd cymdeithasol
- Diffyg rhyngweithio cymdeithasol
- Yr angen am ddiagnosis ac ymyrraeth yn gynharach

Dywedodd pobl ifanc fod ‘siarad’ yn anodd iddyn nhw, na fydden nhw’n teimlo’n gyfforddus yn trafod eu pryderon yn yr ysgol, oherwydd eu bod nhw ddim yn teimlo eu bod yn cael cefnogaeth o’r math yna, a bod yr ysgol yn canolbwyntio’n fwy ar addysg. Roedden nhw hefyd yn teimlo, er eu bod yn caru eu teuluoedd, bod siarad â nhw yn gallu bod yn anodd weithiau. Fe ddywedson nhw, ar y cyfan, ei bod hi’n well ganddyn nhw ddefnyddio a chael mynediad i gefnogaeth gan asiantaethau allanol sy’n dod i mewn i’r ysgol, a’u bod yn cael mwy o fudd a chefnogaeth o’r gwasanaethau hynny ar gyfer eu hanghenion iechyd meddwl a llesiant.


**Gall canolbwyntio ar iechyd meddwl a llesiant eich gwneud chi’n fwy hapus!**



At ei gilydd, awgrymodd pobl ifanc y gallai’r canlynol gefnogi iechyd meddwl a llesiant plant a phobl ifanc:


- Mwy o ardaloedd awyr agored, mwy o glybiau, mwy o weithgareddau lleol
- Mwy o ddarpariaeth o ran clybiau ieuenctid
- Cefnogaeth gyda threfn ddyddiol a phatrymau cysgu
- Yfed digon o ddŵr a hwyluso mynediad at hynny
- Cymdeithasu ar-lein a chwarae gêmau fideo
- Clybiau ffitrwydd a champfeydd hygyrch, wedi’u hariannu’n llawn
- Mae angen gwella mynediad plant a phobl ifanc at wasanaethau iechyd meddwl
- Mae angen bod gwasanaethau ymyrraeth gynnar ar gael ac yn cael eu gwella

## Canfyddiadau Blynyddoedd Cynnar

### Bod ti’n teimlo’n hapus ac yn ddiogel.





Bu’r plant oedd yn rhan o’r sesiwn hon yn defnyddio emojis i fynegi eu barn ar y saith ymrwymiad trawslywodraethol.

Mynegodd dau blentyn dristwch, ond dangosodd gweddill y plant hapusrwydd a chyffro, a dangos eu cefnogaeth i’r ddelwedd oedd yn cynrychioli’r ymrwymiad.

Ar lafar mynegodd y plant:

Ffrindiau, mami, cylch chwarae, dadi, teulu, chwarae â theganau, cloi’r drysau.

**Ymrwymiad 5:**

**Atal tlodi a lliniaru ei effeithiau fel bod plant a phobl ifanc o aelwydydd incwm isel yn gallu byw bywydau iachach a mwy cyflawn a chyflawni eu potensial.**

(Ystyried ychwanegu: ‘estyn hyn i bob math ar anghydraddoldeb systemig’).

Roedd yr ymrwymiad hwn yn rhannu cyfranogwyr yr ymgynghoriad yn gyfartal o ran deall y geiriad. Nid oedd y cyfranogwyr iau yn deall rhai o’r geiriau fel ‘lliniaru’ a’r defnydd o’r gair ‘cydraddoldeb’, lle gwelwyd ‘tegwch’ mewn ymrwymiadau blaenorol. Roedden nhw hefyd yn teimlo y dylai’r ychwanegiad gael ei gadw yn yr ymrwymiad hwn, i ddangos yn eglur bod yr ymrwymiad yn canolbwyntio ar atal pob math o anghydraddoldeb.

Rhannodd y cyfranogwyr eu barn bod angen mwy o gefnogaeth i helpu plant, pobl ifanc a'u teuluoedd trwy dlodi, er enghraifft banciau bwyd a banciau dillad. Roedden nhw'n awgrymu, petai rhaglen i leihau effaith tlodi, y byddai hynny'n golygu bod modd i bobl ifanc gael mynediad i'w hawliau (CCUHP) a fyddai, yn ei dro, yn annog a chefnogi plant a phobl ifanc yng Nghymru i gyflawni eu potensial llawn er gwaethaf eu hamgylchiadau a'u cefndiroedd cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol. Roedden nhw'n teimlo'n gryf y dylai plant a phobl ifanc sy'n byw mewn tlodi gael cefnogaeth ychwanegol i'w hiechyd corfforol a meddyliol. Ar ben hynny, gwnaed y sylw bod plant a phobl ifanc sy'n byw mewn tlodi yn aml yn colli gweithgareddau allgyrsiol sy'n hybu llesiant, ac y dylid darparu cefnogaeth ledled Cymru i sicrhau nad oes unrhyw blentyn na pherson ifanc heb gael cynnig y cyfleoedd hyn. Dywedwyd hefyd y gallai byw mewn tlodi effeithio ar y mathau o fwyd sydd ar gael, gan fod bwyd rhatach yn aml yn llai llesol i iechyd, a bod hynny'n arwain at fwy o oblygiadau i deuluoedd.


Pwysleisiodd y cyfranogwyr bwysigrwydd cefnogi iechyd y rhai sydd mewn tlodi, gan mai'r rhai sy'n dioddef problemau iechyd neu iechyd meddwl a allai fod yn ddigartref yn y pen draw. Nododd nifer o'r cyfranogwyr a fu'n rhan o'r ymgynghoriad eu bod yn dod o deuluoedd incwm isel, ac amlygwyd yr heriau maen nhw'n eu hwynebu a sut mae hynny'n effeithio arnynt o ran cyflawni hyd eithaf eu potensial.

I wneud i'r ymrwymiad hwn weithio, awgrymodd plant a phobl ifanc fwy o fanciau bwyd, clybiau brecwast a gwasanaethau i gefnogi'r rhai sy'n byw mewn tlodi. Fe wnaethon nhw awgrymu y dylid datblygu adnoddau i roi mynediad i fwydydd iachach a chyngor ar sut i fwyta'n fwy iach ar gyllideb. Fe ddywedson nhw y dylai fod gan wasanaethau cefnogi a darpariaethau i daclo tlodi bolisi un drws a drws agored. Roedden nhw'n teimlo y dylai plant a phobl ifanc sy'n byw mewn tlodi fedru cael mynediad i gynllun sy'n cynnig aelodaeth o gampfa am ddim i annog ffordd fwy iach o fyw, gan fod gweithgaredd corfforol yn bwysig o safbwynt iechyd meddwl a llesiant. Awgrymwyd cefnogaeth i rieni, gofalwyr a theuluoedd sy'n byw mewn tlodi, er mwyn sicrhau gwell llesiant yn gyffredinol yn yr uned deuluol, sy'n gallu arwain at well cefnogaeth i'r plant a'r bobl ifanc o fewn y teulu. Ar ben hynny, gwnaed y sylw bod llawer o bobl ifanc yn byw mewn tlodi digidol, ac y dylai fod mwy o gynlluniau a rhagenni sy'n cynnig cyfarpar digidol a chysylltedd, gan sicrhau cydraddoldeb i bob plentyn a pherson ifanc gael mynediad i adnoddau addysgol ar-lein. At ei gilydd, dywedodd pobl ifanc fod llawer o'r ymrwymiadau yn gysylltiedig â'i gilydd.

**'Paru pobl â swyddi sy'n berthnasol i'w sgiliau a mwy o gyfleoedd i bobl ifanc gynyddu eu sgiliau.'**

| |
| --- |
| Atal tlodi a lliniaru ei effeithiau fel bod plant a phobl ifanc o aelwydydd incwm isel yn gallu byw bywydau iachach, mwy cyflawn, a chyflawni eu potensial |
| Mae angen iddyn nhw ystyried tlodi mewn gwaith ac effaith hynny ar deuluoedd |
| Cyllid Myfyrwyr Cymru |
| Rhwystrau sydd ddim bob amser yn weladwy |
| Ydych chi'n meddwl bod yr ymrwymiad hwn yn bwysig? Pam/pam ddim? |
| O ran benthyciadau myfyrwyr does dim rhaid talu nhw nôl nes bod chi'n ennill swm penodol. Dydw i ddim wir yn credu gallwn ni gael popeth am ddim |
| Sgiliau sylfaenol yn cael eu haddysgu yn yr ysgol |
| Rwy'n credu bod angen i ni fod yn ofalus ein bod ni ddim yn mynd â holl gyfrifoldeb pobl i ganfod gwybodaeth oddi arnyn nhw. Mae'r angen i ymchwilio eich hun yn rhan o ddysgu, gweithio a byw |
| Paratoi rhestr o eiriau a allai fod yn anodd eu deall, gyda diffiniad neu esboniad/enghraifft |
| Mae llawer o bobl ifanc sy'n dod o aelwydydd incwm isel yn gweithio mwy na'r oriau cyfreithlon ar gyfer eu hoed i ennill arian i'w haelwyd. Oes modd ymyrryd yn hyn? Gorfodi busnes i roi'r egwyliau y mae ganddyn nhw hawl i'w derbyn i bobl ifanc |
| Beth sy'n gallu cael ei wneud neu ei newid i wireddu hyn? |
| Mae hyn hefyd yn cysylltu â problem ffioedd dysgu! Ddylai na ddim bod miliwnyddion tra bod pobl yn begera am arian ar y stryd |
| Darparu egwyliau digonol |
| Annog plant/pobl ifanc i gael hyd i wybodaeth/ymchwilio |
| Gan fod y rhan fwyaf o ysgolion yn defnyddio Teams/Classroom, dylid rhoi gliniadur i ddysgwyr o aelwydydd incwm isel i'w gadw yn ystod eu haddysg |
| Mae'r isafswm cyflog yn dal mor isel |
| Dwlu ar y syniad, ond mae angen tystiolaeth neu syniadau ynghylch sut byddai hynny'n digwydd. Rwy'n teimlo bod hyn wedi cael ei addo i fi pan oeddwn i'n blentyn, ond newidiodd dim byd. |
| Mae angen llai o wahaniaethu a thriniaeth wahanol i'r rhai sy'n dod o aelwydydd tlawd. Ddylai hynny ddim golygu tynnu sylw at bobl ifanc sydd mewn tlodi, ond yn hytrach sicrhau cydraddoldeb i bawb. |
| Hoffwn i weld yn eu cynlluniau sut mae hyn yn mynd i gael ei wneud, fel bod pobl yn gwybod eu bod nhw'n mynd i lynu ato fe. |
| Sut mae diffinio 'aelwyd incwm isel'? |
| Geiriad haws ei ddeall |
| Dylai ysgolion a cholegau fod yn hybu cyllid myfyrwyr, sef beth roeddwn i'n meddwl bydden nhw'n gwneud pan oeddech chi'n meddwl am gyflwyno cais |
| Cyfleoedd i bobl o aelwydydd incwm isel. Mae llawer o fyfyrwyr a nodir felly yn colli cyfleoedd fel cystadlaethau mathemateg sy'n rhoi manteision i bobl ar ffurflenni cais i brifysgolion. |
| Addysg ar reoli arian, biliau etc. Efallai gallai hyn gael ei estyn i rieni i'w cefnogi nhw. Gweithdy enghreifftiol ar sut mae newid eich darparwyr. |
| Mae angen newid y geiriad |
| Mae tiwtora'n ddrud, buddsoddi mewn mwy o adnoddau ar-lein fel pytiau bach ('bite-size') fel bod effaith anghymesur ar fyfyrwyr incwm isel yn hyn o beth. |

## Bod ti'n gallu chwarae a chael hwyl.




Bu'r plant oedd yn rhan o'r sesiwn hon yn defnyddio emojis i fynegi eu barn ar y saith ymrwymiad trawslywodraethol.

Cafodd delweddau'r ymrwymiad hwn ymateb mwy amrywiol, gydag un plentyn yn dewis yr emoji pryderus, dau blentyn yn mynegi tristwch, un yn dangos teimladau crac ac un yn ansicr. Ond dangosodd gweddill y plant hapusrwydd a chyffro, gan fynegi cefnogaeth i'r ddelwedd oedd yn cynrychioli'r ymrwymiad.

### Ymrwymiad 6:
### Atal digartrefedd ieuenctid fel rhan o'n cynllun hirdymor i ddileu pob math o ddigartrefedd.

Roedd mwyafrif y cyfranogwyr yn deall yr ymrwymiad hwn ac yn cytuno ei fod yn bwysig iawn. Soniwyd bod angen cartref ar bob plentyn a pherson ifanc ac y gallai bod heb hynny gael effaith sylweddol ar eu datblygiad, eu haddysg, eu hiechyd corfforol a meddyliol a mwy.

Mynegwyd barn ynghylch anghydraddoldeb cyflogau i bobl ifanc. Dywedodd pobl ifanc ei fod yn annheg os ydych chi'n gwneud yr un gwaith, ond yn cael llai o dâl oherwydd eich bod chi'n berson ifanc. Aethon nhw ymlaen i ddweud bod anghydraddoldeb o ran yr isafswm cyflog i bobl ifanc yn cael effaith sylweddol, yn arbennig ar y rhai sy'n byw'n annibynnol, gan fod costau byw a biliau ac ati mor uchel. Mae'r isafswm cyflog yr un fath p'un a ydych chi'n berson ifanc sy'n byw gyda'ch teulu neu'n oedolyn ifanc sy'n byw'n annibynnol. O ganlyniad, mae'r gwahaniaeth o ran isafswm

cyflog ar sail oed y gweithiwr yn gwbl annheg, ac yn gallu cyfrannu at ddigartrefedd ieuenctid.

Roedden nhw'n teimlo bod yr ymrwymiad hwn yn bwysig iawn ac na ddylai neb fod heb gartref. Fe wnaethon nhw awgrymu'r canlynol:
significant impact, particularly for those who are living independently as the cost of living and bills and so high. The minimum wage is the same whether you are a young person living with your family or young adult living i

- Mwy o fynediad i dai â chymorth
- Mwy o addysg ar gynyddu ymwybyddiaeth o reoli materion ariannol i oedolion a phobl ifanc
- Mwy o dai cost isel
- Mwy o swyddi sy'n talu cyflog byw, fel bod pobl ifanc yn gallu fforddio byw
- Mwy o lochesi i bobl ifanc
- Canllawiau penodol i bobl ifanc ar sut mae agor cyfrif banc, ble mae cael cefnogaeth cyn bod angen hynny arnyn nhw, neu ar unrhyw adeg pan fydd angen hynny arnyn nhw
- Mynediad at gyngor arbenigol i bobl ifanc ddigartref a mynediad mwy hwylus at fudd-daliadau.


**'Dylai fod gwarant o fflat neu gartref i bobl ifanc sy'n gadael gofal, yn hytrach na hostel, i'w cefnogi i bontio o ofal.'**


| |
|---|
| Atal digartrefedd ieuenctid fel rhan o'n cynllun hirdymor i ddileu pob math o ddigartrefedd |
| Mae angen adeiladu mwy o lety/gartrefi |
| Beth sy'n gallu cael ei wneud neu ei newid i wireddu hyn? |
| Yn bendant yn bwysig – mae angen mwy o fynediad at dai cost isel a gwasanaethau eraill |
| Geiriad haws ei ddeall |
| Helpu ac atal digartrefedd ieuenctid, yn arbennig ymhlith y rhai sy'n 17/18, gan fod braidd dim cefnogaeth ariannol, sy'n golygu bod cael hyd i leoedd i rentu/fyw yn anoddach, oherwydd dydyn ni ddim yn ennill cymaint, ond mae disgwyl o hyd i ni fwrw ymlaen gyda hyn |
| Mae angen bod help i'r rhai sydd ddim yn ddigartref bellach fynd yn ôl i waith/addysg |
| Mwy o dai â chymorth fel bod pobl ifanc yn gallu cael y gefnogaeth angenrheidiol i fod yn annibynnol |
| Mae angen iddyn nhw edrych ar y broses dai gyfan |
| Peidio ag anwybyddu'r ffaith bod tlodi'n bodoli. Gall y cywilydd sy'n dod o wynebu problemau ariannol effeithio ar fywyd y cartref, bywyd yr ysgol a bywyd cymdeithasol person |
| Rydw i'n gweithio ac yn cael £5 yr awr. Mae pobl sy'n henach yn cael £9. Annheg yn fy marn i |
| Prosiectau 'foyer' ym mhob awdurdod lleol - www.foyer.net |
| Isafswm cyflog/cyflog byw – mae trefniant oed-benodol yn annheg |
| Pobl ifanc heb ddigon o incwm i fod yn wirioneddol annibynnol – talu rhent a biliau etc |
| Mae cynnydd mewn pensaernïaeth elyniaethus yng Nghymru. Er na fyddai hyn yn atal digartrefedd, mae yn diarddel poblogaethau digartref ifanc ac yn rhoi'r argraff nad oes ots gan y llywodraeth amdanyn nhw. |

## Canfyddiadau Blynyddoedd Cynnar

### Bod ti’n cael popeth rwyt ti angen, fel cartref, gwely, bwyd, dillad etc








Bu’r plant oedd yn rhan o’r sesiwn hon yn defnyddio emojis i fynegi eu barn ar y saith ymrwymiad trawslywodraethol.

Roedd yr ymatebion i ddelweddau’r ymrwymiad hwn yn fwy amrywiol, ond yn llai felly na’r ymrwymiad blaenorol. Dewisodd un plentyn yr emoji dryslyd, dewisodd un arall yr un trist, ac roedd y gweddill yn cyfleu hapusrwydd a chyffro, gan ddangos cefnogaeth i’r ddelwedd oedd yn cynrychioli’r ymrwymiad.

**Ymrwymiad 7:**

**Gwella’r canlyniadau i blant sydd â phrofiad o ofal, cefnogi teuluoedd sy’n wynebu amgylchiadau heriol i aros gyda’i gilydd lle bo modd a helpu plant i gael eu haduno â’u teuluoedd pan fyddan nhw ar wahân.**

(Ystyried ychwanegu: ‘dim ond os yw gwneud hynny’n ddiogel’ (yn arbennig yng nghyd-destun trais domestig)).

Roedd cefnogaeth ysgubol i’r ymrwymiad hwn ac roedd yn eglur bod mwyafrif y cyfranogwyr yn ei gefnogi. Roedden nhw hefyd yn teimlo y dylid cynnwys yr ychwanegiad, ac roedden nhw’n pwysleisio bod eu hadborth mewn perthynas â’r ymrwymiad hwn yn dibynnu ar gadw’r plentyn neu’r person ifanc yn ddiogel ar hyd yr amser. O ganlyniad mae’n hanfodol

cynnwys 'dim ond os yw hynny'n ddiogel' yn yr ymrwymiad hwn.

Soniwyd bod cael eu gwahanu oddi wrth eu teulu yn gallu cael effaith ddifrifol ar lesiant a dyfodol pobl ifanc, a bod angen cefnogaeth ychwanegol i aduno a chefnogi plant a phobl ifanc sy'n mynd trwy'r broses hon. Datgelodd pobl ifanc oedd â  phrofiad o ofal fod eu profiadau wedi bod yn negyddol, a bod angen cefnogaeth barhaus ar hyd eu hoes. Datgelwyd hefyd nad oedd profiadau pobl ifanc o aros gyda'u teulu bob amser er gwell, a'i fod yn bwysig cefnogi plant a phobl ifanc trwy sefyllfaoedd anodd, gwrando arnyn nhw, a'u gwneud yn ganolog i unrhyw benderfyniadau sy'n cael eu gwneud drostyn nhw.


Cofnodwyd bod llawer o bobl ifanc ar restrau aros ar gyfer meddygon, ysbytai a deintyddion y GIG, a bod angen rhoi sylw i hynny gan ei fod yn cael effaith negyddol sylweddol ar fywydau plant a phobl ifanc sydd â phrofiad o ofal.


Dywedodd plant a phobl ifanc fod cefnogaeth mewn ysgolion yn bwysig iawn i wneud i'r ymrwymiad hwn weithio, gan y bydd pobl ifanc yn cael cyfle i ddatgelu, derbyn cymorth a gofyn am gefnogaeth pan fydd angen. Cytunwyd bod teuluoedd yn wahanol ac na ddylid cyffredinoli, ac nad yw bod gyda'ch gilydd bob amser yn adlewyrchu'r 'darlun perffaith'. At ei gilydd, roedd yr awgrymiadau'n cynnwys:


- Mwy o gefnogaeth mewn ysgolion
- Darparu canolwyr, a gofyn i'r plentyn neu'r person ifanc beth maen nhw eisiau
- Darparu mwy o gefnogaeth i deuluoedd aros gyda'i gilydd
- Gweithwyr proffesiynol i newid ffurf cwestiynau a darparu mwy o gefnogaeth, e.e. 'wyt ti eisiau i ni wneud hyn?' yn hytrach na 'dyma beth rydyn ni'n mynd i wneud'
- Darparu cwnsela i blant a phobl ifanc a theuluoedd
- Recriwtio gofalwyr maeth da, diogel a chefnogi sefydliadau sy'n gwneud y gwaith hwnnw
- Sicrhau bod gofal cymdeithasol o ansawdd da ar gael i gefnogi plant a phobl ifanc sy'n cael profiad o hyn

## Canfyddiadau'r Blynyddoedd Cynnar

### Bod pobl yn gwrando arnat ti, i gael gwybod beth rwyt ti'n meddwl ac yn teimlo tu mewn.








Bu'r plant oedd yn rhan o'r sesiwn hon yn defnyddio emojis i fynegi eu barn ar y saith ymrwymiad trawslywodraethol.

Cafwyd atebion mwy amrywiol i ddelweddau'r ymrwymiad hwn, er yn llai felly na'r ymrwymiad blaenorol. Dewisodd un plentyn yr emoji dryslyd, dewisodd un yr emoji ansicr, ac un yr emoji trist, ond roedd gweddill yr emojis a ddewiswyd yn cyfleu hapusrwydd a chyffro, gan ddangos cefnogaeth i'r ddelwedd oedd yn cynrychioli'r ymrwymiad.

**Ydych chi'n meddwl bod yr ymrwymiadau hyn yn y drefn gywir?**

Roedd gwahaniaeth barn ynghylch y drefn, ond awgrymodd y rhan fwyaf o blant a phobl ifanc mai'r gweithredu a'r canlyniadau fydd yn penderfynu llwyddiant y Cynllun hwn, nid y drefn.

**Oes yna unrhyw feysydd eraill rydych chi'n meddwl sy'n bwysig?**

- Newid hinsawdd
- Cymdeithas fwy glân
- Ailgylchu gwell
- Mwy o ddealltwriaeth ac ymwybyddiaeth o ofalwyr ifanc, ac ymrwymiad i ddelio â'r materion maen nhw'n eu hwynebu
- Hunaniaeth a rhywioldeb

**Pa enw byddech chi'n ei roi i'r Cynllun?**

Ateb y mwyafrif oedd bod enw'r Cynllun yn iawn fel y mae, ond cafwyd rhai awgrymiadau oedd yn cynnwys:

- Cynllun Plant Cymru
- Bywyd Plant ac Oedolion Ifanc
- Addewidion
- Cynllun Plant i Gymru
- Ein Plant Ni, Ein Cynllun Ni
- Cynllun Datblygiad Cymdeithasol, Emosiynol a Chorfforol Parhaus Plant a Phobl Ifanc

**Hoffech chi ymwneud â datblygiadau pellach i'r Cynllun?**

Mynegodd yr holl gyfranogwyr ddiddordeb mewn ymwneud â datblygiadau'r Cynllun i'r dyfodol.

**Sut byddech chi'n gwybod oedd Llywodraeth Cymru yn gwneud gwaith da o ran gweithredu'r Cynllun?**

- Adborth rheolaidd i blant a phobl ifanc ynghylch y cynnydd a wnaed yn erbyn ymrwymiadau, camau gweithredu a chanlyniadau'r Cynllun
- Panel adolygu o blant a phobl ifanc i archwilio'r ymrwymiadau, y camau gweithredu a'r canlyniadau, a sicrhau bod Llywodraeth Cymru yn atebol amdanynt

**"Bydden ni'n gwybod oherwydd bydden ni'n dechrau gweld newid."**

**Sut byddech chi'n mesur llwyddiant Llywodraeth Cymru o ran cyflawni'r ymrwymiadau?**

- Tystiolaeth yn cael ei harddangos ar-lein mewn ffordd hwylus i blant
- Cyhoeddi cynnydd, gwerthuso rheolaidd ac adborth gan blant, pobl ifanc a'u teuluoedd, gwasanaethau a sefydliadau'n gweithio tuag at gyflawni'r ymrwymiadau, Camau Gweithredu a Chanlyniadau

**Beth hoffech chi ei weld yn digwydd o'ch cwmpas i'ch sicrhau bod Llywodraeth Cymru yn gwneud gwaith da wrth weithio tuag at gyflawni'r saith ymrwymiad?**

- Mwy o sesiynau ymgynghori ac adolygu, gyda chyfle i roi adborth ac asesu gweithrediad a pharhad llwyddiannus y Cynllun (yn cefnogi Erthygl 12 o CCUHP)
- Deialog cryfach rhwng plant a phobl ifanc ac oedolion, gyda phlant a phobl ifanc yn ganolog i'r holl benderfyniadau sy'n cael eu gwneud
- Cyfeiriadau rheolaidd at yr ymrwymiadau yn yr ysgol ac mewn grwpiau plant a phobl ifanc, i sicrhau bod gwybodaeth yn cyrraedd y gymuned a phob darparwr gwasanaeth

**Sut dylai'r Cynllun gael ei gyflwyno?**

Mae angen newid geiriad y saith ymrwymiad trawslywodraethol a'u cyflwyno mewn fformat hwylus a hygyrch i blant a phobl ifanc. Mae angen i bawb ddeall y Cynllun Plant a Phobl Ifanc fel bod modd ei roi ar waith yn effeithiol. Hefyd dylai fod ar gael mewn gwahanol ieithoedd.



**Awgrymiadau:**

1. **Mae angen newid geiriad y saith ymrwymiad trawslywodraethol a'u cyflwyno mewn fformat mwy hwylus a hygyrch i blant a phobl ifanc. Mae angen i bawb ddeall y Cynllun Plant a Phobl Ifanc er mwyn gallu ei roi ar waith yn effeithiol. Hefyd dylai fod ar gael mewn gwahanol ieithoedd. Mae'r geiriad newydd a gynigir fel a ganlyn:**

Ymrwymiad 1:

Galluogi plant o bob cefndir i gael y cychwyn gorau mewn bywyd, gyda chefnogaeth darpariaeth blynyddoedd cynnar gydlynus, integredig ac effeithiol a chymorth rhieni. (Ychwanegiad: 'o ofal plant i ddatblygiad y blynyddoedd cynnar a llwybrau dysgu unigol' neu 'ychwanegiad sy'n pwysleisio'r pontio o'r cartref i'r ysgol trwy ofal plant').

Newid i:

Dylai plant o bob cefndir gael y dechrau gorau mewn bywyd, gan gynnwys gwasanaethau blynyddoedd cynnar da a chefnogaeth i rieni neu ofalwyr. Dylai plant gael eu cefnogi gartref, mewn gofal plant ac mewn ysgolion.

Darllen Hawdd:

**Bod gen ti lawer o bobl i ofalu amdanat ti (gartre ac mewn lleoedd eraill).**

Ymrwymiad 2:

Sicrhau tegwch ym mhrofiad addysg pob dysgwr, yn arbennig plant a phobl ifanc Du, Asiaidd ac o leiafrifoedd ethnig, plant a phobl ifanc ag anabledd a'r rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, gan godi lefel dyheadau a'u cefnogi i gyflawni hyd eithaf eu potensial.

Newid i:

Mae gan bob plentyn a pherson ifanc yn yr ysgol, neu mewn addysg arall, hawl i gael eu trin yn deg ac yn gyfartal, a dylen nhw gael cyfle i gyflawni eu potensial llawn a chael eu cefnogi i gyrraedd eu nodau eu hunain.

Darllen Hawdd:

**Bod ti'n dysgu llawer o bethau newydd gyda llawer o blant eraill, sut bynnag maen nhw'n edrych a ble bynnag maen nhw'n byw.**

Ymrwymiad 3:

Gwella'r pontio trwy addysg, hyfforddiant a chyflogaeth ar gyfer pobl ifanc ôl-16, gan gynnwys llwybrau cymwysterau.

Newid i:

Dylai plant a phobl ifanc gael cyfle i ddatblygu, dysgu a thyfu ym mhob cyfnod o'u haddysg. Wrth iddyn nhw gyrraedd 16 oed, dylen nhw gael cyfleoedd ac opsiynau ar gyfer addysg, hyfforddiant a chyflogaeth.

Darllen Hawdd:

**Bod ti'n cael help wrth roi cynnig ar bethau newydd neu orfod mynd i rywle newydd.**

Ymrwymiad 4:

Gwella llesiant emosiynol a meddyliol plant a phobl ifanc trwy gefnogaeth effeithiol,

integredig a hygyrch.

Newid i:

Dylai plant a phobl ifanc deimlo'n hapus ac yn ddiogel, dylen nhw gael help a chefnogaeth os nad ydyn nhw'n teimlo'n hapus neu'n ddiogel.

Darllen Hawdd:

**Bod ti'n teimlo'n hapus ac yn ddiogel.**

Ymrwymiad 5:

Atal tlodi a lliniaru ei effeithiau fel bod plant a phobl ifanc o aelwydydd incwm isel yn gallu byw bywydau iachach a mwy cyflawn, a chyflawni eu potensial. (Ychwanegiad: 'estyn hyn i bob math ar anghydraddoldeb systemig').

Newid i:

Dylai pob plentyn a pherson ifanc sy'n byw gyda theuluoedd sydd heb lawer o arian neu sy'n cael eu trin yn annheg am unrhyw reswm arall gael eu cefnogi i sicrhau eu bod nhw'n iach ac yn cael cyfle i gyflawni hyd eithaf eu potensial.

Darllen Hawdd:

**Bod ti'n gallu chwarae a chael hwyl.**

Ymrwymiad 6:

Atal digartrefedd ieuenctid fel rhan o'n cynllun hirdymor i ddileu pob math ar ddigartrefedd.

Newid i:

Ni ddylai unrhyw blentyn na pherson ifanc fod yn ddigartref. Dylai fod gan bob plentyn a pherson ifanc yng Nghymru gartref diogel, sicr i fyw ynddo.

Darllen Hawdd:

**Bod gen ti'r holl bethau rwyt ti angen fel cartref, gwely, bwyd, dillad etc.**

Ymrwymiad 7:

Gwella'r canlyniadau i blant sydd â phrofiad o ofal (plant nad ydynt yn byw gyda'u rhieni neu sy'n derbyn gofal gan rywun arall), cefnogi teuluoedd sy'n wynebu amgylchiadau heriol i aros gyda'i gilydd lle bo modd a helpu plant i gael eu haduno â'u teuluoedd pan fyddan nhw ar wahân, lle mae hynny'n ddiogel. (Ychwanegiad: 'dim ond os yw gwneud hynny'n ddiogel', yn arbennig yng nghyd-destun trais domestig).

Newid i:

Dylai pob plentyn a pherson ifanc gael eu cadw'n ddiogel. Dylai plant a phobl ifanc sydd ddim yn byw gyda'u rhieni neu sy'n derbyn gofal gan rywun arall gael eu cefnogi i aros gyda'u teulu neu fynd yn ôl at eu teulu, ond dim ond os yw hynny'n ddiogel.

Darllen Hawdd:

**Bod pobl yn gwrando arnat ti i gael gwybod beth rwyt ti'n meddwl ac yn teimlo tu mewn.**

2. **Dylai cefnogaeth gael ei darparu i rieni a phlant blynyddoedd cynnar trwy gynnig gofal plant o safon uchel a gwasanaethau cefnogi i rieni neu ofalwyr a'u plant. Gall y dull gweithredu hwn gefnogi a darparu cyfleoedd gwell ar hyd taith plentyn neu berson ifanc trwy fyd addysg.**

3. **Dylai fod mwy o gefnogaeth i rieni ddarparu dechrau iach mewn bywyd i'w plant trwy ganllawiau a darpariaeth safonol bwyd iach ac ymarfer corff.**

4. **Dylai mwy o sefydliadau gefnogi rhieni a theuluoedd gyda phob agwedd ar y blynyddoedd cynnar.**

5. **Dylai fod mwy o bwyslais ar gydraddoldeb ym myd addysg. Mae pob person ifanc yn haeddu addysg o safon dda, beth bynnag yw eu hanghenion dysgu, p'un a oes ganddynt anabledd neu beidio, a ph'un a ydynt yn dod o gymuned Du, Asiaidd neu ethnig lleiafrifol neu beidio.**

6. **Dylai cefnogaeth berthnasol ac amserol fod ar gael ar gyfer plant a phobl ifanc ym myd addysg. Dylai fod gan awdurdodau lleol, ysgolion a sefydliadau allanol, gan gynnwys sefydliadau trydydd sector, ddull integredig a chydlynus o gynnig gwasanaethau a chefnogaeth.**

7. **Dylai mannau diogel i ddysgu fod yn hygyrch i bob plentyn a pherson ifanc.**

8. **Dylid cynnwys argymhellion o Gynllun Cydraddoldeb Hil Llywodraeth Cymru i gefnogi plant a phobl ifanc Du, Asiaidd ac o Leiafrifoedd Ethnig ar hyd eu haddysg.**

9. **Dylai fod mwy o gyngor a chefnogaeth gyrfaoedd yn cael eu darparu yn yr ysgol a'r coleg i helpu pobl ifanc i nodi eu llwybrau gyrfa unigol.**

10. **Dylai fod mwy o gefnogaeth a chyllid i ysgolion, i helpu gydag ymyrraeth gynnar, gwasanaethau iechyd meddwl a darpariaethau pobl ifanc. Gall plant a phobl ifanc gael mwy o drafferth ymdopi â straen a phryder yn ystod cyfnodau arholiadau a phontio, yn arbennig y pontio wrth adael yr ysgol ac ymgysylltu â gyrfa ar hyd llwybr addysg bellach.**

11. **Dylid datblygu canllaw arfer da ar gyfer pob gweithiwr proffesiynol sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc i sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cael cynnig y cyfleoedd gorau a'r gefnogaeth orau ar hyd eu plentyndod.**

12. **Dylai fod gwelliant a chynnydd yn y gwasanaethau cyfannol, ymyrraeth gynnar a'r gofal cefnogol ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n cael trafferthion iechyd meddwl neu lesiant. Ochr yn ochr â hynny dylid cynnig mwy o hyfforddiant i gefnogi athrawon, gweithwyr ieuenctid a gweithwyr proffesiynol eraill sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc sy'n cael trafferthion iechyd meddwl neu lesiant.**

13. **Dylid darparu mynediad am**

ddim neu noddedig i blant i glybiau ffitrwydd a champfeydd. Byddai'r cynnig hwn yn cefnogi iechyd corff a meddwl, yn darparu amgylchedd iach, ac yn gwella llesiant plant a phobl ifanc.

14. Dylai fod mwy o gyllid ar gael i sefydliadau sy'n cefnogi plant a phobl ifanc a'u teuluoedd i aros gyda'i gilydd, pan fydd yn ddiogel gwneud hynny. Byddai hyn yn cefnogi teuluoedd lle mae plant a phobl ifanc mewn perygl o fynd i ofal. Dylai pob gwasanaeth ar gyfer plant a phobl ifanc sydd mewn perygl o syrthio i ofal neu'r rhai sydd yn y system ofal fod o'r safon uchaf, yn ddiogel ac yn gefnogol. Dylen nhw ystyried barn plant a phobl ifanc a gwneud y farn honno'n ganolog i benderfyniadau a wneir a gwasanaethau a gynigir, ochr yn ochr â sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cael eu cadw'n ddiogel.

15. Dylid darparu tai â chymorth a chefnogaeth i bobl ifanc sy'n gadael gofal, er mwyn atal digartrefedd a chefnogi unrhyw bobl ifanc sydd mewn perygl o fod yn ddigartref.

16. Dylai gofal maethu o safon dda gael ei darparu, gan y gallai fod angen cefnogaeth a chydymdeimlad ychwanegol ar bobl ifanc i ymdopi â'u sefyllfa.



# DIWEDDGLO

Mae'r adroddiad hwn wedi cyflwyno pwrpas y Cynllun Plant a Phobl Ifanc drafft, wedi egluro methodoleg y gwaith ymchwil, wedi nodi'r pwrpas, wedi coladu data'r cyfranogwyr, wedi esbonio'r dull gweithredu, wedi ystyried y cyfyngiadau ac wedi archwilio'r canfyddiadau allweddol.

Mae'r plant a'r bobl ifanc a fu'n cyfranogi yn yr ymgynghoriad hwn wedi cael cyfle i archwilio, trafod, ystyried a chyflwyno argymhellion o'u persbectif nhw, er mwyn casglu, ystyried a gwneud awgrymiadau ynghylch y Cynllun Plant a Phobl Ifanc drafft, gan ystyried y saith ymrwymiad trawslywodraethol yn benodol.

Mae pandemig COVID-19 wedi cael effaith sylweddol ar blant a phobl ifanc yng Nghymru. Bu hyn yn llinyn cyffredin trwy'r ymgynghoriad ac mae'n cael effaith ar draws y rhan fwyaf o'r ymrwymiadau trawslywodraethol, os nad y cwbl. Soniwyd hefyd yn yr adroddiad hwn fod COVID-19 wedi cael effaith sylweddol ar gyfranogiad, ymgysylltu a dulliau cyfranogi.

Ymhlith y prif awgrymiadau roedd newid geiriad y saith ymrwymiad trawslywodraethol i fod yn haws eu deall i bobl ifanc, gan mai nod craidd y Cynllun yw cael effaith gadarnhaol yn benodol ar blant a phobl ifanc yng Nghymru, a gwneud 'Cymru yn lle gwych i dyfu i fyny ynddo.'

Roedd y cyfranogwyr yn awyddus i nodi, o safbwynt ymarfer ymgynghori a chyfranogiad effeithiol, y dylai plant a phobl ifanc gael cyfle i gydgynhyrchu'r holl gynlluniau, polisïau, neu ddeddfwriaeth a ddatblygir sy'n effeithio'n uniongyrchol ar eu bywydau, gan ymarfer eu hawliau o dan Erthygl 12 o CCUHP ac ar sail y Safonau Cyfranogiad Cenedlaethol ar gyfer plant a phobl ifanc. Fodd bynnag, roedd y mwyafrif hefyd yn deall ac yn cefnogi'r ymgynghoriad hwn, ac roedd pawb ohonynt yn awyddus i barhau i ymwneud â datblygiadau'r Cynllun wrth symud ymlaen.

Mynegodd plant a phobl ifanc ofyniad hefyd i dderbyn adborth gan Lywodraeth Cymru ar yr ymgynghoriad hwn, o ran sut mae eu hawgrymiadau wedi cael eu derbyn neu eu cynnwys yn y Cynllun.

Wrth archwilio'r Cynllun Plant a Phobl Ifanc draft roedd yn eglur bod plant a phobl ifanc o'r farn bod y Cynllun yn eithriadol o bwysig. Roedd yn eglur eu bod yn teimlo'n gryf y gallai ac y dylai'r Cynllun gael effaith sylweddol ar fywydau plant a phobl ifanc yn awr ac yn y dyfodol, gan sicrhau bod holl blant a phobl ifanc Cymru yn codi lefel eu dyheadau, yn cyflawni hyd eithaf eu potensial, ac yn byw mewn 'Cymru sy'n lle gwych i dyfu i fyny ynddo'. Mae'n hanfodol bod y Cynllun yn cael ei weithredu'n effeithiol ar draws Llywodraeth Cymru, gwasanaethau cyhoeddus a chyrff trydydd sector, ac y glynir ato, gan gyflwyno, cynnal ac ariannu gwasanaethau a chefnogaeth yn briodol. Roedd plant a phobl ifanc yn credu bod yr ymrwymiadau yn berthnasol i wella cyfleoedd, cydraddoldeb

a thegwch i bob plentyn a pherson ifanc, ac roedden nhw'n croesawu'r dull gweithredu cadarnhaol gan Lywodraeth Cymru i wireddu eu hymrwymiadau o fewn y cynllun, ynghyd â'r camau gweithredu a'r canlyniadau i gyflawni nodau'r Cynllun.

Mae gan Cymru Ifanc hanes sefydledig o hybu agendâu hawliau plant a phobl ifanc, ymgysylltu a chyfranogiad ledled Cymru, a hynny ar sail CCUHP a'r Safonau Cyfranogiad Cenedlaethol ar gyfer plant a phobl ifanc. Mae gennym ddull partneriaeth cydlynus o ymdrin â'n gwaith, gan gwmpasu plant, pobl ifanc a phartneriaid o ystod o sectorau a sefydiladau, er mwyn cefnogi hawliau plant a chyfranogiad; a sicrhau eu bod yn ganolog i bob penderfyniad a wneir. Ein ffocws yw galluogi lleisiau plant a phobl ifanc i gael eu clywed a'u gwrando ledled Cymru.

Mae'r ymgynghoriad ar y drafft o'r Cynllun Plant a Phobl Ifanc wedi galluogi plant a phobl ifanc i sicrhau bod eu lleisiau'n cael eu clywed a'u gwrando yng nghyswllt datblygiadau i'r dyfodol a gweithredu'r Cynllun.

**'Cael Llais – Cael Dewis'**

# ATODIADAU

**Cynllun Sesiwn Cymru Ifanc – 0-7 oed**

**Ymgynghoriad Cymru Ifanc ar Gynllun Plant a Phobl Ifanc Drafft Llywodraeth Cymru**


**Crynodeb i hwyluswyr – Mae'r cynllun sesiwn sy'n dilyn yn ganllaw i hwyluso gwybodaeth a chwestiynau gyda grwpiau er mwyn gallu casglu barn am ddatblygiad drafft Llywodraeth Cymru, sef 'Cynllun Plant a Phobl Ifanc', ac mae'r sesiwn yn canolbwyntio'n arbennig ar 7 ymrwymiad trawslywodraethol.**

**Ar hyn o bryd, mae'r gwaith yma'n GYFRINACHOL. Peidiwch â'i rannu ond gyda'r cyfranogwyr rydych chi'n gweithio gyda nhw.**

**Mae modd addasu'r cynllun sesiwn hwn yn hwylus ar gyfer ystod o oedrannau a/neu alluoedd gwahanol. Mae modd hefyd i'r hwylusydd addasu'r sesiwn ar gyfer trafodaeth gydag unigolion ar sail un i un gan ddefnyddio'r wybodaeth yn y sesiwn hon.**

**I sicrhau cysondeb, mae'n bwysig casglu adborth gan blant a phobl ifanc o bob adran o'r cynllun sesiwn. Defnyddiwch y ffurflen ddata yn y pecyn adnoddau i gasglu a chyflwyno eich canfyddiadau.**

**I gael rhagor o wybodaeth am gyflwyno'r sesiwn hon neu i gael cefnogaeth, e-bostiwch Gareth.hicks@childreninwales.org.uk**

<table>
<tr><td colspan="3">Rhannwyd yn ddau grŵp oed, ond mae modd eu defnyddio fel sy'n briodol. 0-4 oed 4-7 oed</td></tr>
<tr><td>Beth</td><td>Disgrifiad</td><td>Wyneb yn Wyneb</td></tr>
<tr><td>Cyflwyno'r sesiwn:<br><br>Uchelgais: Gwneud Cymru yn lle gwych i dyfu i fyny ynddo.</td><td>Rydyn ni eisiau sicrhau bod Cymru yn lle gwych i chi dyfu i fyny ynddo. Rydyn ni eisiau i chi fod yn iach, yn hapus ac yn ddiogel.<br><br>Bydden ni'n hoffi gwybod eich barn.</td><td>Llun o Gymru / Faner Cymru a grŵp o bobl.<br><br>Tri llun sy'n dangos plant iach, hapus a diogel (mae hynny'n crynhoi CCUHP ar gyfer plant ifanc).<br><br><br>Baner Cymru<br><br><br>Iach<br><br><br>Hapus<br><br><br>Diogel</td></tr>
<tr><td>Cyflwyno'r pwnc mewn perthynas â'r hunan</td><td>Gan ddefnyddio'r amlinelliad o'r corff, esboniwch fod y 'bobl' sy'n helpu pawb yng Nghymru eisiau eich helpu chi.</td><td>â'r gweithgaredd ac mewn perthynas â nhw. Bydd hyn yn cymryd lle cyflwyniad ffurfiol i'r ymgynghoriad.</td></tr>
</table>

| | | |
|---|---|---|
| **Cyflwyno'r 7 ymrwymiad trawslywodraethol gan ddefnyddio'r lluniau a ddarparwyd; siarad o amgylch pob pwynt a defnyddio unrhyw bropiau fel sy'n briodol.**<br><br>Cyflwyno'r 3 wyneb teimladau a siarad am yr emosiynau / eu dangos.<br><br>Rydw i'n teimlo'n hapus<br><br>Rydw i'n teimlo'n drist<br><br>Rydw i'n teimlo'n ansicr<br><br>Teimladau ychwanegol i'w defnyddio os ydyn nhw'n oed-briodol.<br><br>Rydw i'n teimlo'n bryderus<br><br>Rydw i'n teimlo'n gyffrous<br><br>Rydw i'n teimlo'n ddryslyd<br><br>Rydw i'n teimlo'n grac | Pob ymrwymiad i gael ei ddangos i'r plant gan ddefnyddio'r lluniau a'r propiau.<br><br>Trafodaeth fer yn defnyddio iaith briodol yn unig er mwyn ymgyfarwyddo a chefnogi dealltwriaeth.<br><br>Chwarae rôl/dull seiliedig ar chwarae i gyflwyno pob llun | Plant 4-7 oed – Ewch trwy bob llun mewn grwpiau bach a chael trafodaeth fer o amgylch y pwnc<br><br>Cofnodi – unrhyw beth sydd ar goll, themâu, bod yn ymwybodol o faterion eraill sy'n cael eu codi.<br><br>Gan ddefnyddio'r wynebau teimladau gofynnwch i'r plant ddal yr un sy'n cyfateb i sut maen nhw'n teimlo i fyny neu bwyntio ato fe pan fyddwch chi'n trafod pob llun.<br><br>Plant 0-4 oed – mewn grwpiau bach neu'n unigol, gan ddefnyddio'r amlinelliad o'r corff maen nhw wedi'i addurno i adlewyrchu eu hunan, gofynnwch iddyn nhw feddwl am beth sydd ei angen arnyn nhw i'w gwneud nhw'n hapus, yn iach ac yn ddiogel (defnyddiwch luniau o'r cyflwyniad i gefnogi hyn). Yna gofynnwch iddyn nhw lynu'r llun ar amlinelliad y corff, yn agosach os ydyn nhw'n fwy pwysig ac ymhellach i ffwrdd os nad ydyn nhw. |
| **Sylwadau ac adborth** | Crynhoi a phwyntiau trafod | Gan ddefnyddio'r llun o unigolyn neu'r hyn sydd ar y cyrff, gallwch chi gael trafodaeth bellach am beth sydd ar goll neu beth arall sy'n bwysig. |
| Diolch | Diolch ac adborth | Diolchwch i'r plant am gymryd rhan a rhannu eu teimladau. Mae eu lluniau'n wirioneddol bwysig, a byddan nhw'n helpu'r bobl sy'n gofalu am bawb yng Nghymru i barhau i helpu pobl a gwneud Cymru'n lle da i fyw a thyfu i fyny ynddo. |

*Ymrwymiadau gyda geiriau syml a syniadau ar gyfer lluniau*

1. **Bod gennych chi lawer o bobl i ofalu amdanoch chi (gartref ac mewn lleoedd eraill).**
   **(Llun o blentyn gyda llawer o oedolion o'u hamgylch)**



2. **Eich bod chi'n dysgu llawer o bethau newydd gyda llawer o blant eraill, sut bynnag maen nhw'n edrych a ble bynnag maen nhw'n byw.**
   **(Llun o lawer o blant gydag amrywiaeth o liwiau croen, anableddau a llun o'r byd)**



3. **Eich bod chi'n cael help pan fyddwch chi'n rhoi cynnig ar bethau newydd neu'n gorfod mynd i rywle newydd.**
   **(Llun o blentyn yn cerdded rhywle ar lwybr neu'n agor drws)**



4. **Eich bod chi'n teimlo'n hapus ac yn ddiogel.**
   **(Llun o blentyn ag wyneb hapus a breichiau o'u hamgylch)**



5. **Eich bod chi'n gallu chwarae a chael hwyl**
**(Llun o blant yn chwarae tu mewn a'r tu allan)**



6. Eich bod chi'n cael yr holl bethau mae arnoch eu hangen fel cartref, gwely, bwyd, dillad etc.
   (Llun o blentyn gyda thŷ a phlât o fwyd)



**7. Eich bod chi'n cael gwrandawiad er mwyn darganfod beth rydych chi'n ei feddwl a'i deimlo ar y tu mewn.**
**(Llun o oedolyn yn eistedd gyda phlentyn ac yn edrych arnyn nhw, plentyn yn chwarae neu'n siarad)**



**Fersiwn lawn o'r Saith Ymrwymiad Trawslywodraethol: (Addewid neu adduned gan bob rhan o'r Llywodraeth a fydd yn cydweithio i gyflawni eu haddewidion/haddunedau.)**

**1. Galluogi plant o bob cefndir i gael y cychwyn gorau mewn bywyd, gyda chefnogaeth darpariaeth blynyddoedd cynnar gydlynus, integredig ac effeithiol, a chymorth rhieni. (Ychwanegiad: 'o ofal plant i ddatblygiad y blynyddoedd cynnar a llwybrau dysgu unigol' neu 'ychwanegiad sy'n pwysleisio'r pontio o'r cartref i'r ysgol trwy ofal plant').**

**2. Sicrhau tegwch ym mhrofiad addysg pob dysgwr, yn arbennig plant a phobl ifanc Du, Asiaidd ac o leiafrifoedd ethnig, plant a phobl ifanc ag anabledd, a'r rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, gan godi lefel dyheadau a'u cefnogi i gyflawni hyd eithaf eu potensial.**

**3. Gwella'r pontio trwy addysg, hyfforddiant a chyflogaeth ar gyfer pobl ifanc ôl-16, gan gynnwys llwybrau cymwysterau.**


**4. Gwella llesiant emosiynol a meddyliol plant a phobl ifanc trwy gefnogaeth effeithiol, integredig a hygyrch.**


**5. Atal tlodi a lliniaru ei effeithiau fel bod plant a phobl ifanc o aelwydydd incwm isel yn gallu byw bywydau iachach a mwy cyflawn a chyflawni eu potensial. (Ychwanegiad: 'estyn hyn i bob math ar anghydraddoldeb systemig'.)**

**6. Atal digartrefedd ieuenctid fel rhan o'n cynllun hirdymor i ddileu pob math o ddigartrefedd.**

**7. Gwella'r canlyniadau i blant sydd â phrofiad o ofal, cefnogi teuluoedd sy'n wynebu**

**amgylchiadau heriol i aros gyda'i gilydd lle bo modd, a helpu plant i gael eu haduno â'u teulu-oedd pan fyddan nhw ar wahân. (Ychwanegiad: 'dim ond os yw gwneud hynny'n ddiogel' (yn arbennig yng nghyd-destun trais domestig)).**





Trist




Hapus



Ansicr



Crac



Dryslyd



Cyffrous



Pryderus

**Cynllun Sesiwn Cymru Ifanc - 7 i 25 oed**

**Ymgynghoriad Cymru Ifanc ar Gynllun Plant a Phobl Ifanc Drafft Llywodraeth Cymru**

**Crynodeb i hwyluswyr** – Mae'r cynllun sesiwn sy'n dilyn yn ganllaw i hwyluso gwybodaeth a chwestiynau gyda grwpiau er mwyn gallu casglu barn am ddatblygiad drafft Llywodraeth Cymru, sef 'Cynllun Plant a Phobl Ifanc', ac mae'r sesiwn yn canolbwyntio'n arbennig ar 7 ymrwymiad trawslywodraethol.

**Ar hyn o bryd, mae'r gwaith yma'n GYFRINACHOL. Peidiwch â'i rannu ond gyda'r cyfranogwyr rydych chi'n gweithio gyda nhw.**

**Mae'n hwylus iawn addasu'r cynllun sesiwn yma ar gyfer ystod o oedrannau a/neu alluoedd gwahanol.** Gallwch chi hefyd ei addasu er mwyn trafod gydag **unigolion ar sail un i un** gan yr hwylusydd, gan ddefnyddio'r wybodaeth yn y sesiwn hon, y 7 ymrwymiad a argraffwyd, gofyn y cwestiynau yn y rhestr iddyn nhw a chofnodi eu sylwadau. Dilynwch hynny trwy ofyn am syniadau ar gyfer enwi cynllun Llywodraeth Cymru, a gofyn a fyddai ganddynt ddiddoreb mewn cael eu cynnwys ar hyd cyfnodau datblygiad y cynllun.

